# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 1 a 8 Mawrth 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

17 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

28 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

29 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

41 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

43 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r effaith y bydd cyhoeddiadau ynghylch adeiladau carchardai yn y Deyrnas Unedig i'r dyfodol yn ei chael ar Gymru ac, os ydyw, a wnaiff ef ddatgelu cynnwys y trafodaethau hynny? (WAQ49582)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid wyf fi'n bersonol wedi trafod y mater hwn gyda'r Swyddfa Gartref, ond mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi bod yn gohebu â'u chymheiriaid yn y Swyddfa Gartref, ac yn siarad â hwy, am y mater hwn.

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei adran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49597)

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49638)

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49598)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49599)

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiynau Cynulliad ysgrifenedig WAQ49523, WAQ49536, WAQ49530, WAQ49532, WAQ49534, WAQ49524 a WAQ49528. Mae'r meini prawf a amlinellwyd yn yr ateb hwnnw o ran teithio i Frwsel yn berthnasol i unrhyw deithio gan Weinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei adran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49637)

**Y Prif Weinidog:** Mae gweithredu i hyrwyddo arbedion ynni yn fy adran yn cael ei reoli drwy, yn gynyddol, osod system reoli amgylcheddol ar draws yr ystâd weinyddol. Hyd yma mae wedi cael ei gosod ym mharc Cathays, ac fe'i hardystiwyd ar lefel 5 y Ddraig Werdd ar 30 Mawrth 2006 (sy'n cyfateb i ISO 14001). Dylai dwy swyddfa arall gael eu hardystio erbyn gwanwyn 2007 a'r ystâd gyfan erbyn mis Gorffennaf 2009.

Bydd y system reoli amgylcheddol ac astudiaeth gwmpasu (a fydd yn adrodd ym mis Ebrill) yn cynhyrchu rhaglen rheoli carbon ar gyfer yr ystâd. O'r rhaglen hon caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a disgwylir adroddiad interim ym mis Mehefin. Mae'r cynllun gweithredu terfynol, a fydd yn cynnwys amryw o opsiynau wedi'u costio, i fod i ymddangos yn hydref 2007.

Yn ychwanegol at hyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

- cyflawni rhwymedigaethau sy'n deillio o ymrwymiad rhaglen y DU ar newid yn yr hinsawdd i leihau gollyngiadau carbon deuocsid 60 y cant erbyn 2050; ac
- dod yn garbon niwtral ar ei hystâd erbyn 2012.

Ymysg y camau eraill i ymgorffori effeithlonrwydd ynni yn yr adran mae:

- rhoi blaenoriaeth i effeithlonrwydd ynni wrth gomisiynu prosiectau sy'n cael eu cyllido drwy raglen fuddsoddi gyfalaf yr ystâd;

- ymgorffori nodweddion cynaliadwyedd yn yr adeiladau newydd sy'n cael eu codi yng Nghyfforrdd Llandudno ac Aberystwyth drwy gytundeb partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon;
- y gofyniad bod adeiladau newydd yn cyrraedd safon 'ragorol' dull arfarnu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a bod cynlluniau ailwampio mawr yn cyrraedd safon 'dda iawn' dull arfarnu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu;
- defnyddio asesiadau effeithlonrwydd ynni i flaenoriaethu caffael a gwaredu lle swyddfa;
- ymgorffori argymhellion yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wrth gynllunio i ailwampio parc Cathays;
- mae cynnwys meini prawf effeithlonrwydd ynni mewn contractau yn digwydd fel mater o drefn erbyn hyn. Er enghraifft, mae gweithfannau TG sydd newydd gael eu hadnewyddu yn defnyddio 60 y cant yn llai o drydan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49214)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Gwariant ar gyhoeddusrwydd na chafodd ei gaffael yn ganolog o gyllidebau rhaglenni mis Ebrill i fis Rhagfyr 2006

| | Enghreifftiau | Swm |
|---|---|---|
| CyMAL: Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru | Cynhyrchu cyfnodolyn CyMAL; hyrwyddo mis yr amgueddfeydd ac orielau; digwyddiadau | £29,000 |
| Cadw | Hysbysebu; marchnata; cysylltiadau cyhoeddus | £318,000 |
| | **CYFANSWM:** | **£347,000** |

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddiogelu dyfodol llyfrgelloedd yng Nghymru? (WAQ49562)

**Alun Pugh:** Mae Cymru'n ffodus bod ganddi rwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus, addysgol ac arbenigol sy'n rhoi mynediad at amrywiaeth eang o adnoddau print, amlgyfrwng ac ar-lein. Er enghraifft, mae'r awdurdodau lleol yn darparu dros 320 o bwyntiau gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru sydd ar agor 10 awr neu fwy yr wythnos, yn cynnwys llyfrgelloedd teithiol.

Rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2007 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy isadran CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, wedi dyrannu rhyw £3 miliwn i ddatblygu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru gan arwain at:

- 120 o brosiectau datblygu yn cael cefnogaeth yn 2004 gan hyrwyddo mynediad ehangach at wasanaethau llyfrgell, yn cynnwys gwell gwasanaethau i bobl anabl;
- cyflwyno @Eich Lyfrgell Chi/@Your Library yn 2005, y rhaglen ddatblygu strategol gyntaf i lyfrgelloedd i gael ei chyllido yng Nghymru;
- gwell mynediad at wasanaethau ar-lein i ddefnyddwyr llyfrgelloedd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd a'r rheini ar gael hefyd i aelodau llyfrgelloedd gartref neu yn y gweithle;
- lansio porth llyfrgell www.llyfrgell.cymru.org;
- mwy o bartneriaethau rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd yn rhoi gwell mynediad at eu casgliadau;
- cynlluniau marchnata llyfrgelloedd Cymru gyfan i ddenu defnyddwyr newydd mewn ymateb i ymchwil farchnata fanwl;
- darparu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol i staff llyfrgelloedd i ddatblygu eu sgiliau;

- parhau i gefnogi gweithgareddau datblygu darllenwyr, yn cynnwys ymgyrchoedd ar y cyd yn cynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd;
- cyflwyno fframwaith safonau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i lyfrgelloedd cyhoeddus yn 2005, gan adeiladu ar lwyddiant y fframwaith cyntaf. Yn ystod 2002-05, ar draws Cymru bu gwelliant 100 y cant o ran darparu ceisiadau darllenwyr yn ddiymdroi ac yn effeithlon, gwelliant o 84 y cant o ran darparu adnoddau a gwasanaethau TGCh, cynnydd o 45 y cant mewn gwariant ar ddeunyddiau llyfrgell at ddefnydd y cyhoedd a chynnydd o 15 y cant mewn ymwelwyr.

Yn 2007-08 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £2.5 miliwn pellach ar ddatblygu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru, yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth £1.5 miliwn i ddatblygu llyfrgelloedd dysgu cymunedol modern.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo beicio mynydd yng Nghymru? (WAQ49579)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr gydnabod bod beicio mynydd yng Nghymru yn gamp ac yn weithgaredd adloniant sy'n tyfu'n gyflym ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i gymryd rhan.

Gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn chwaraewr allweddol yn natblygiad beicio mynydd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r llwybrau pwrpasol mewn nifer o goedwigoedd wedi gwneud Cymru yn lle sy'n adnabyddus drwy'r byd am y gweithgaredd hwn, megis: coedwigoedd Coed y Brenin a Gwydyr yn y Gogledd: Nant yr Arian a Choedwig Llandegla yn y Canolbarth ac Afan Argoed, Cwmcarn a Glyncorrwg yn y De. Rhyngddynt mae'r cyfleusterau hyn wedi denu degau o filoedd o ymwelwyr ac wedi dod â budd economaidd sylweddol felly i'r ardaloedd hyn, gan fynd â'r seilwaith beicio mynydd yng Nghymru i lefel newydd.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi darparu £30,000 yn ddiweddar i sefydlu trac beicio mynydd newydd ym Mhlas Menai. Mae trafodaethau ar y gweill hefyd gyda chyrff llywodraethu beicio, gyda golwg ar ddatblygu llwybr perfformio i feicwyr mynydd elite Cymru wrth i Gemau Olympaidd Beijing yn 2008 a Llundain 2012 nesáu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi beicio mynydd drwy 'Moving up a Gear', strategaeth i farchnata a datblygu twristiaeth beicio a beicio mynydd. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mae'r strategaeth hon yn dwysau'r ymgyrch i hyrwyddo Cymru yn y DU fel lleoliad o bwys ar gyfer beicio mynydd.

**Eleanor Burnham:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog a hyrwyddo cyfryngau cymunedol? (WAQ49594)

**Alun Pugh:** Mae papurau bro yn cael grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07 byddant yn cael £75,034.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi £100,000 o gyllid refeniw y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru. Mae'r swm wedi cael ei roi yng nghyllideb refeniw y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol i'w ddefnyddio o fis Ebrill 2007 ymlaen. Caiff y trefniadau o ran defnyddio'r arian hwn eu cyhoeddi'n fuan. Erbyn hyn mae saith gorsaf radio cymunedol â thrwydded lawn yng Nghymru, a chafodd dwy ohonynt eu trwyddedau gan y Swyddfa Gyfathrebu ar 13 Chwefror 2007.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei hadran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49630) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49632) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49631) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49633) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49634) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cerdded yng Nghymru fel gweithgarwch hamdden? (WAQ49642)

**Alun Pugh:** Yr wyf yn llwyr gydnabod gwerth cerdded fel gweithgaredd hamdden a ffordd ragorol o ddod yn ffit. Eleni (2006-07) fel rhan o'r rhaglen gyfalaf gymunedol ffyrdd gweithgar o fyw, byddwn wedi cefnogi 52 o brosiectau cerdded gan fuddsoddi bron i £750,000. Yr ydym hefyd wedi darparu bron i £150,000 dan y rhaglen hon i'r Comisiwn Coedwigaeth i helpu i wella llwybrau troed ac i greu teithiau coedwig.

Yr ydym hefyd yn annog rhagor o gerddwyr i ddefnyddio ein hamgylchedd naturiol eithriadol. Er mis Hydref 2003 yr ydym wedi cyllido rhagolygon tywydd mynydd ar wefan i Barciau Cenedlaethol y Bannau ac Eryri sy'n darparu rhagolygon lleol dyddiol, yn rhad ac am ddim, fel y gall pobl fwynhau'r mynyddoedd gan wybod bod y wybodaeth iawn ganddynt am yr amodau.

Ar ben hynny mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru fod yn bartner arwain wrth symud rhaglen gerdded dair blynedd yn ei blaen. Cefnogir y rhaglen gyda chyllid o £400,000 (y mae £100,000 ohono'n dod o'm portffolio chwaraeon), gyda'r nod o annog pobl eisteddog i ddechrau cerdded, fel ffordd o wella iechyd rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo seiclo fel gweithgarwch hamdden yng Nghymru? (WAQ49643)

**Alun Pugh:** Mae gan seiclo synergedd ag amryw o strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru boed hynny fel cyfrwng adloniant, trafnidiaeth neu fel ffordd o gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Yn fy mhortffolio i yn ystod 2006-07 yr ydym wedi cefnogi cynlluniau drwy Welsh Cycling gyda'r nod o annog rhagor o bobl ifanc a theuluoedd i gymryd rhan yn seiclo—cynlluniau fel 'Go Ride' a digwyddiadau cyfranogiad torfol (£20,000). Ar ben hynny mae dros £470,000 wedi cael ei ddyrannu dan

y rhaglen gyfalaf gymunedol ffyrdd gweithgar o fyw i gefnogi 40 o brosiectau a fwriadwyd i ddatblygu cynllun seiclo cymunedol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cyfranogiad torfol.

Oherwydd poblogrwydd y rhaglen hon mae 90 o brosiectau seiclo pellach yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn golygu dyrannu £200,000 pellach. Y nod yw:

- gwneud seiclo'n fwy hygyrch i'r rhai ar draws ein cymunedau sydd un ai ddim yn seiclo neu'n methu seiclo oherwydd diffyg adnoddau;
- annog rhagor o bobl i ddechrau seiclo;
- annog seiclo fel dull trafnidiaeth a/neu adloniant bob dydd i wella iechyd yn gyffredinol;
- darparu ar gyfer y rhai wnaiff feicio os oes cyfle'n codi, drwy ei gwneud hi'n haws cael gafael ar feic mewn mannau allweddol. Er enghraifft, parciau gwledig, ardaloedd arfordirol, coetiroedd, canolfannau gweithgareddau teulu, cyrchfannau penwythnos/gwyliau, a'r gweithle.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd pellach i ddatblygu seiclo fel gweithgaredd hamdden drwy ddigwyddiadau cyfranogiad torfol, cynlluniau yn y gweithle a chysylltiadau â rhaglenni eraill megis 5 x 60 mewn ysgolion uwchradd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** Faint o fuddsoddiad tramor a fu yng Nghymru ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf, fesul sector, a pha gymhariaeth y mae'r Gweinidog wedi'i gwneud o ganran y cyfryw fuddsoddiad gyda chyfanswm y buddsoddiad tramor uniongyrchol i (a) y Deyrnas Unedig a (b) yr Undeb Ewropeaidd? (WAQ49328)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Darparaf ddau atodiad. Mae'r cyntaf yn rhoi dadansoddiad yn ôl sector o fuddsoddiad uniongyrchol tramor cymwys o dan reolau Masnach a Buddsoddi y DU a sicrhawyd i Gymru dros y 10 mlynedd diwethaf (10 mis cyntaf 2006-07). Mae'r ail yn dangos cyfran Cymru o lwyddiant y Deyrnas Unedig. O ran yr ail dabl, er bod Masnach a Buddsoddi y DU yn cofnodi ar sail sector, mae'r fethodoleg fymryn yn wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddiwn ni ac nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol. Nid yw'r naill dabl na'r llall yn cynnwys symudiadau o fewn y DU.

Nid yw'n bosibl llunio unrhyw gymariaethau dibynadwy gyda gweddill Ewrop un ai ar sail sector neu ar sail blwyddyn wrth flwyddyn. Mae gwahanol gronfeydd data ar gael ac maent yn defnyddio methodolegau ac yn cynnwys cofnodion nad ydynt yn gyson â'r rhai sy'n cael eu dal yn y DU—uno a phrynu o bwys, manwerthu ac adeiladu er enghraifft—a byddai'n amhriodol llunio unrhyw gasgliadau ohonynt. Er y byddai'r cofnodion yn annibynadwy o ran llunio cymariaethau ystyrlon, maent o werth inni at ddibenion ymchwil a hynny o ran gweithgarwch cwmnïau a'r farchnad a thueddiadau FDI.

Mae Cymru wedi gwneud yn well na'r disgwyl yn gyson o ran denu mewnfuddsoddiad—mae dros 9 y cant o swyddi newydd y llynedd yn enghraifft dda—ond mae lle i wella. Mae gennym gorff newydd ar ffurf Busnes Rhyngwladol Cymru, sydd mewn sefyllfa dda i sicrhau gwell ganlyniadau, ac mae'r cyfleoedd sy'n codi, o ran swmp ac ansawdd, yn rhoi hyder inni yn y cyswllt hwn. Fe'm calonogir yn arbennig gan y ffaith bod tua 25 y cant o'r swyddi a sicrhawyd eleni hyd yma, ynghyd â'r rhai y disgwylir eu sicrhau eto, yn cynnig cyflogau o fwy na £30,000.

**Prosiectau Cymwys UKTI drwy Gymru Gyfan, yn ôl Sector, am y cyfnod 01 Ebrill 1997 - 31 Ionawr 2007**

| Dyddiad | Sector | Nifer o Brosiectau | Gwariant Cyf. £m | Swyddi Newydd | Swyddi a Ddiogelwyd | Cyf. Swyddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1997-98 | Awyrofod | 2 | 7.646 | 276 | 0 | 276 |
| | Modurol | 18 | 144.086 | 1505 | 979 | 2484 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Biotechnoleg | 1 | 0 | 60 | 0 | 60 |
| | Canolfannau Galwadau | 1 | 3.500 | 11 | 0 | 11 |
| | Cemegau/Olew | 4 | 30.300 | 152 | 63 | 215 |
| | Dillad/Esgidiau | 1 | 0 | 200 | 0 | 200 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 3 | 29.277 | 116 | 0 | 116 |
| | Addysg/Hyfforddiant | 1 | 2.000 | 0 | 75 | 75 |
| | Electroneg | 8 | 65.457 | 1977 | 555 | 2532 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 1 | 1.000 | 0 | 35 | 35 |
| | Bwyd/Diod | 1 | 0 | 0 | 63 | 63 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 3 | 11.625 | 48 | 42 | 90 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 5 | 26.614 | 251 | 667 | 918 |
| | Fferyllol | 3 | 1.101 | 74 | 0 | 74 |
| | Plastig/Papur | 3 | 11.351 | 306 | 0 | 306 |
| | **Cyfanswm** | **55** | **333.957** | **4976** | **2479** | **7455** |
| 1998-99 | Awyrofod | 3 | 32.030 | 300 | 90 | 390 |
| | Amaethyddiaeth/Coedwigaeth/Pysgota | 2 | 0 | 44 | 0 | 44 |
| | Modurol | 4 | 209.101 | 778 | 457 | 1235 |
| | Bancio/Cyllid | 2 | 57.530 | 1500 | 0 | 1500 |
| | Gwasanaethau Busnes | 1 | 1.575 | 50 | 0 | 50 |
| | Cemegau/Olew | 2 | 0.350 | 0 | 254 | 254 |
| | Dillad/Esgidiau | 1 | 7.880 | 172 | 80 | 252 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 5 | 138.580 | 761 | 181 | 942 |
| | Electroneg | 4 | 35.437 | 601 | 180 | 781 |
| | Bwyd/Diod | 3 | 4.554 | 189 | 0 | 189 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 3 | 5.698 | 132 | 0 | 132 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 3 | 3.493 | 261 | 0 | 261 |
| | Fferyllol | 2 | 4.196 | 78 | 14 | 92 |
| | Plastig/Papur | 5 | 26.437 | 332 | 120 | 452 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 3 | 4.050 | 208 | 0 | 208 |
| | Telathrebu | 1 | 0.275 | 40 | 0 | 40 |
| | **Cyfanswm** | **44** | **531.186** | **5446** | **1376** | **6822** |
| 1999-2000 | Awyrofod | 1 | 18.000 | 25 | 0 | 25 |
| | Amaethyddiaeth/Coedwigaeth/Pysgota | 1 | 2.800 | 20 | 0 | 20 |
| | Modurol | 9 | 72.294 | 487 | 2091 | 2578 |
| | Canolfannau Galwadau | 3 | 14.420 | 1910 | 0 | 1910 |
| | Cemegau/Olew | 1 | 9.100 | 40 | | 40 |
| | Dillad/Esgidiau | 1 | 0.817 | 142 | 0 | 142 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 2 | 2.116 | 56 | 23 | 79 |
| | Electroneg | 1 | 1.000 | 85 | 0 | 85 |
| | Bwyd/Diod | 4 | 4.445 | 70 | 177 | 247 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 3 | 2.400 | 29 | 120 | 149 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 4 | 307.043 | 275 | 55 | 330 |
| | Fferyllol | 3 | 4.651 | 169 | 270 | 439 |
| | Plastig/Papur | 7 | 62.970 | 648 | 470 | 1118 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 2 | 2.700 | 60 | 0 | 60 |
| | Lled-ddargludyddion | 1 | 3.000 | 60 | 0 | 60 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 1 | 0.008 | 12 | 50 | 62 |
| | Telathrebu | 1 | 1.200 | 20 | 360 | 380 |
| | **Cyfanswm** | **45** | **508.964** | **4108** | **3616** | **7724** |
| 2000-01 | Modurol | 6 | 296.231 | 1287 | 911 | 2198 |
| | Gwasanaethau Busnes | 2 | 0.600 | 12 | 0 | 12 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canolfannau Galwadau | 1 | 0.000 | 1400 | 0 | 1400 |
| | Cemegau/Olew | 4 | 16.039 | 108 | 71 | 179 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 2 | 15.878 | 133 | 0 | 133 |
| | E-fusnes | 6 | 47.841 | 554 | 713 | 1267 |
| | Addysg/Hyfforddiant | 1 | 0.300 | 28 | 135 | 163 |
| | Electroneg | 3 | 1.719 | 81 | 3 | 84 |
| | Bwyd/Diod | 3 | 13.300 | 266 | 0 | 266 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 1 | 5.015 | 0 | 20 | 20 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 2 | 3.031 | 181 | 0 | 181 |
| | Pecynnu | 1 | 0.700 | 13 | 0 | 13 |
| | Fferyllol | 2 | 5.090 | 103 | 0 | 103 |
| | Plastig/Papur | 1 | 2.320 | 44 | 0 | 44 |
| | Cyhoeddi | 1 | 0.045 | 6 | 0 | 6 |
| | Lled-ddargludyddion | 3 | 5.137 | 104 | 0 | 104 |
| | Warysau/Dosbarthu | 1 | 0.000 | 250 | 0 | 250 |
| | **Cyfanswm** | **40** | **413.246** | **4,570** | **1,853** | **6,423** |
| 2001-02 | Awyrofod | 2 | 12.802 | 300 | 310 | 610 |
| | Modurol | 8 | 48.185 | 761 | 430 | 1191 |
| | Biotechnoleg | 2 | 1.430 | 40 | 6 | 46 |
| | Canolfannau Galwadau | 4 | 5.749 | 626 | 0 | 626 |
| | Cemegau/Olew | 2 | 68.640 | 3 | 108 | 111 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 2 | 0.500 | 24 | 0 | 24 |
| | E-fusnes | 1 | 0.486 | 18 | 0 | 18 |
| | Electroneg | 5 | 13.908 | 155 | 365 | 520 |
| | Peirianneg—Drydanol | 2 | 0.802 | 110 | 0 | 110 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 1 | 8.972 | 50 | 0 | 50 |
| | Bwyd/Diod | 3 | 16.100 | 118 | 220 | 338 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 3 | 2.370 | 35 | 0 | 35 |
| | Optoelectroneg | 1 | 8.600 | 26 | 193 | 219 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 5 | 16.393 | 175 | 849 | 1024 |
| | Pecynnu | 4 | 14.000 | 68 | 200 | 268 |
| | Fferyllol | 1 | 3.500 | 14 | 29 | 43 |
| | Plastig/Papur | 3 | 22.690 | 95 | 585 | 680 |
| | Cyhoeddi | 1 | 0.000 | 4 | 0 | 4 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 2 | 1.714 | 50 | 0 | 50 |
| | Lled-ddargludyddion | 1 | 69.444 | 600 | 0 | 600 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 2 | 0.000 | 30 | 0 | 30 |
| | Telathrebu | 2 | 12.800 | 290 | 0 | 290 |
| | Tecstilau | 1 | 0.000 | 140 | 150 | 290 |
| | Cyfleustodau | 1 | 1.300 | 80 | 0 | 80 |
| | Warysau/Dosbarthu | 1 | 6.800 | 20 | 0 | 20 |
| | **Cyfanswm** | **60** | **337.185** | **3832** | **3445** | **7277** |
| 2002-03 | Awyrofod | 1 | 0.274 | 12 | 0 | 12 |
| | Amaethyddiaeth/Coedwigaeth/Pysgota | 1 | 10.289 | 30 | 0 | 30 |
| | Modurol | 8 | 43.071 | 448 | 1466 | 1914 |
| | Biotechnoleg | 2 | 12.042 | 12 | 110 | 122 |
| | Gwasanaethau Busnes | 1 | 0.060 | 30 | 0 | 30 |
| | Canolfannau Galwadau | 5 | 10.969 | 1138 | 0 | 1138 |
| | Cemegau/Olew | 1 | 3.000 | 80 | 0 | 80 |
| | Electroneg | 3 | 10.156 | 90 | 320 | 410 |
| | Ynni Adnewyddadwy | 1 | 0.450 | 0 | 29 | 29 |
| | Peirianneg – Drydanol | 1 | 0.000 | 30 | 0 | 30 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Peirianneg – Gyffredinol | 1 | 0.445 | 10 | 10 | 20 |
| | Bwyd/Diod | 5 | 34.718 | 295 | 635 | 930 |
| | Dodrefn/Cynnyrch Pren | 2 | 0.700 | 72 | 0 | 72 |
| | Dyfeisiau/Cyfarpar Meddygol | 1 | 0.000 | 120 | 0 | 120 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 1 | 12.500 | 0 | 278 | 278 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 6 | 204.273 | 230 | 633 | 863 |
| | Pecynnu | 3 | 9.329 | 34 | 0 | 34 |
| | Fferyllol | 2 | 37.449 | 445 | 74 | 519 |
| | Plastig/Papur | 2 | 66.476 | 338 | 31 | 369 |
| | Argraffu/Caenu | 1 | 2.780 | 60 | 0 | 60 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 1 | 0.100 | 5 | 0 | 5 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 5 | 1.762 | 157 | 0 | 157 |
| | Telathrebu | 2 | 4.318 | 205 | 30 | 235 |
| | Trafnidiaeth/Logisteg | 1 | 12.300 | 41 | 80 | 121 |
| | **Cyfanswm** | **57** | **477.461** | **3882** | **3696** | **7578** |
| 2003-04 | Awyrofod | 1 | 0.200 | 10 | 0 | 10 |
| | Modurol | 7 | 82.764 | 395 | 1501 | 1896 |
| | Bancio/Cyllid | 2 | 0.455 | 130 | 0 | 130 |
| | Biotechnoleg | 1 | 4.232 | 37 | 330 | 367 |
| | Cyfryngau Darlledu/Amlgyfrwng | 1 | 1.500 | 30 | 0 | 30 |
| | Gwasanaethau Busnes | 1 | 12.021 | 0 | 350 | 350 |
| | Canolfannau Galwadau | 2 | 6.213 | 719 | 0 | 719 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 2 | 23.000 | 75 | 150 | 225 |
| | E-fusnes | 2 | 8.300 | 70 | 0 | 70 |
| | Electroneg | 6 | 11.767 | 259 | 686 | 945 |
| | Ynni | 1 | 0.000 | 0 | 34 | 34 |
| | Ynni Adnewyddadwy | 2 | 0.183 | 35 | 43 | 78 |
| | Peirianneg—Drydanol | 1 | 0.250 | 25 | 20 | 45 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 3 | 13.281 | 123 | 54 | 177 |
| | Nwyddau/Gwasanaethau Amgylcheddol | 3 | 8.451 | 60 | 0 | 60 |
| | Bwyd/Diod | 3 | 31.050 | 150 | 0 | 150 |
| | Dyfeisiau/Cyfarpar Meddygol | 2 | 4.100 | 79 | 30 | 109 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 4 | 4.700 | 461 | 287 | 748 |
| | Optoelectroneg | 1 | 10.000 | 4 | 5 | 9 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 5 | 26.484 | 364 | 200 | 564 |
| | Pecynnu | 4 | 29.015 | 242 | 177 | 419 |
| | Fferyllol | 3 | 31.587 | 106 | 65 | 171 |
| | Plastig/Papur | 3 | 47.340 | 120 | 130 | 250 |
| | Cyhoeddi | 1 | 0.006 | 5 | 0 | 5 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 1 | 0.139 | 2 | 0 | 2 |
| | Lled-ddargludyddion | 1 | 0.530 | 10 | 0 | 10 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 2 | 1.168 | 309 | 5 | 314 |
| | Telathrebu | 1 | 1.980 | 180 | 0 | 180 |
| | Trafnidiaeth/Logisteg | 1 | 0.531 | 64 | 0 | 64 |
| | **Cyfanswm** | **67** | **361.247** | **4,064** | **4,067** | **8,131** |
| 2004-05 | Awyrofod | 1 | 10.414 | 0 | 199 | 199 |
| | Modurol | 9 | 15.111 | 146 | 601 | 747 |
| | Bancio/Cyllid | 2 | 4.382 | 325 | 0 | 325 |
| | Gwasanaethau Busnes | 3 | 30.071 | 245 | 0 | 245 |
| | Canolfannau Galwadau | 3 | 0.073 | 542 | 0 | 542 |
| | Cemegau/Olew | 2 | 0.625 | 17 | 0 | 17 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 1 | 10.500 | 12 | 0 | 12 |
| | E-fusnes | 1 | 0.000 | 20 | 0 | 20 |
| | Electroneg | 3 | 11.500 | 65 | 0 | 65 |
| | Ynni | 1 | 0.000 | 12 | 0 | 12 |
| | Ynni Adnewyddadwy | 1 | 0.000 | 8 | 0 | 8 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 1 | 0.800 | 12 | 0 | 12 |
| | Nwyddau/Gwasanaethau Amgylcheddol | 2 | 0.869 | 290 | 0 | 290 |
| | Bwyd/Diod | 1 | 1.000 | 0 | 50 | 50 |
| | Dodrefn/Cynnyrch Pren | 1 | 1.230 | 34 | 0 | 34 |
| | Iechyd a Ffitrwydd | 1 | 0.250 | 71 | 40 | 111 |
| | Gofal Iechyd | 1 | 6.000 | 20 | 0 | 20 |
| | Dyfeisiau/Cyfarpar Meddygol | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 2 | 0.338 | 3 | 26 | 29 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 3 | 5.203 | 89 | 0 | 89 |
| | Pecynnu | 2 | 1.885 | 51 | 0 | 51 |
| | Fferyllol | 1 | 5.000 | 0 | 200 | 200 |
| | Plastig/Papur | 2 | 16.900 | 156 | 140 | 296 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 3 | 0.300 | 14 | 5 | 19 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 4 | 0.149 | 23 | 0 | 23 |
| | Twristiaeth/Hamdden | 1 | 30.000 | 400 | 0 | 400 |
| | Trafnidiaeth/Logisteg | 1 | 0.500 | 20 | 0 | 20 |
| | **Cyfanswm** | **54** | **153.100** | **2,575** | **1,261** | **3836** |
| 2005-06 | Awyrofod | 3 | 4.706 | 686 | 964 | 1650 |
| | Modurol | 9 | 39.397 | 686 | 491 | 1177 |
| | Bancio/Cyllid | 3 | 21.259 | 418 | 0 | 418 |
| | Biotechnoleg | 2 | 0.300 | 4 | 0 | 4 |
| | Gwasanaethau Busnes | 2 | 0.000 | 0 | 60 | 60 |
| | Cemegau/Olew | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Dillad/Esgidiau | 1 | 0.155 | 9 | 0 | 9 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Electroneg | 2 | 108.030 | 258 | 0 | 258 |
| | Ynni | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 2 | 133.557 | 466 | 42 | 508 |
| | Nwyddau/Gwasanaethau Amgylcheddol | 1 | 5.055 | 60 | 0 | 60 |
| | Bwyd/Diod | 4 | 4.387 | 51 | 40 | 91 |
| | Dodrefn/Cynnyrch Pren | 1 | 0.350 | 120 | 0 | 120 |
| | Gofal Iechyd | 1 | 0.000 | 1 | 0 | 1 |
| | Dyfeisiau/Cyfarpar Meddygol | 2 | 3.655 | 30 | 108 | 138 |
| | Metelau/Cynnyrch Metel | 1 | 1.107 | 4 | 35 | 39 |
| | Optoelectroneg | 1 | 5.000 | 150 | 0 | 150 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 1 | 0.534 | 10 | 104 | 114 |
| | Pecynnu | 1 | 6.000 | 38 | 0 | 38 |
| | Fferyllol | 3 | 22.698 | 35 | 69 | 104 |
| | Argraffu/Caenu | 1 | 0.050 | 2 | 0 | 2 |
| | Gwerthu/Dosbarthu | 1 | 0.100 | 1 | 0 | 1 |
| | Lled-ddargludyddion | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 2 | 4.645 | 55 | 79 | 134 |
| | Telathrebu | 1 | 2.000 | 15 | 0 | 15 |
| | Tecstilau | 1 | 0.650 | 0 | 80 | 80 |
| | Warysau/Dosbarthu | 1 | 1.659 | 33 | 0 | 33 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **51** | **365.294** | **3132** | **2072** | **5204** |
| 2006-07 | Awyrofod | 1 | 0.211 | 22 | 0 | 22 |
| | Modurol | 4 | 14.069 | 156 | 145 | 301 |
| | Biotechnoleg | 2 | 0.444 | 23 | 0 | 23 |
| | Cyfryngau Darlledu/Amlgyfrwng | 2 | 0.845 | 61 | 0 | 61 |
| | Gwasanaethau Busnes | 1 | 0.000 | 67 | 0 | 67 |
| | Canolfannau Galwadau | 2 | 0.000 | 0 | 1096 | 1096 |
| | Cemegau/Olew | 2 | 0.108 | 2 | 0 | 2 |
| | Dillad/Esgidiau | 1 | 0.000 | 0 | 0 | 0 |
| | Adeiladu/Cynnyrch Cysylltiol | 2 | 0.000 | 19 | 0 | 19 |
| | Electroneg | 6 | 34.300 | 513 | 662 | 1175 |
| | Peirianneg—Gyffredinol | 2 | 1.850 | 37 | 0 | 37 |
| | Nwyddau/Gwasanaethau Amgylcheddol | 1 | 0.630 | 74 | 28 | 102 |
| | Gofal Iechyd | 1 | 3.000 | 0 | 32 | 32 |
| | Optoelectroneg | 1 | 60.000 | 300 | 0 | 300 |
| | Gweithgynhyrchu Arall | 1 | 0.000 | 15 | 0 | 15 |
| | Plastig/Papur | 1 | 10.706 | 99 | 140 | 239 |
| | Argraffu/Caenu | 2 | 4.500 | 70 | 105 | 175 |
| | Meddalwedd/Cymwysiadau TG | 2 | 0.381 | 12 | 0 | 12 |
| | Tecstilau | 1 | 0.100 | 5 | 0 | 5 |
| | Cyfleustodau | 2 | 0.132 | 6 | 0 | 6 |
| | **Cyfanswm** | **37** | **131.276** | **1,481** | **2,208** | **3,689** |

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob prosiect pa un a oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud ag af ai peidio. Dylid nodi hefyd fod y ffigurau am swyddi a gwariant cyfalaf wedi'u seilio ar y ffigurau a nodwyd gan y cwmnïau adeg y penderfyniad i fuddsoddi ac nad ydynt yn adlewyrchu datblygiadau ers hynny.

**Cyfran Cymru/y DU o'r Farchnad Fewnfuddsoddi am y Cyfnod 01 Ebrill 1997 - 31 Mawrth 2006**

| | | **Nifer o Brosiectau** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelwyd** | **Cyfanswm Swyddi** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1997-98 | Y DU | 618 | 45,937 | 78,685 | 124,622 |
| | Cymru | 55 | 4,976 | 2,479 | 7,455 |
| | **% Cymru** | **8.9** | **10.8** | **3.2** | **6.0** |
| 1998-99 | Y DU | 648 | 44,268 | 73,920 | 118,188 |
| | Cymru | 44 | 5,446 | 1,376 | 6,822 |
| | **% Cymru** | **6.8** | **12.3** | **1.9** | **5.8** |
| 1999-2000 | Y DU | 757 | 52,783 | 81,411 | 134,194 |
| | Cymru | 45 | 4,108 | 3,616 | 7,724 |
| | **% Cymru** | **5.9** | **7.8** | **4.4** | **5.8** |
| 2000-01 | Y DU | 869 | 71,488 | 52,291 | 123,779 |
| | Cymru | 40 | 4,570 | 1,853 | 6,423 |
| | **% Cymru** | **4.6** | **6.4** | **3.5** | **5.2** |
| 2001-02 | Y DU | 764 | 34,087 | 23,801 | 57,888 |
| | Cymru | **60** | **3832** | **3445** | **7277** |
| | **% Cymru** | **7.9** | **11.2** | **14.5** | **12.6** |
| 2002-03 | Y DU | 709 | 34,396 | 19,915 | 54,311 |
| | Cymru | 57 | 3,882 | 3,696 | 7,578 |
| | **% Cymru** | **8.0** | **11.3** | **18.6** | **14.0** |
| 2003-04 | Y DU | 811 | 25,463 | 33,754 | 59,217 |
| | Cymru | 67 | 4,064 | 4,067 | 8,131 |
| | **% Cymru** | **8.3** | **16.0** | **12.0** | **13.7** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004-05 | Y DU | 1066 | 39,592 | 35,451 | 75,043 |
| | Cymru | 54 | 2,575 | 1,261 | 3,836 |
| | **% Cymru** | **5.1** | **6.5** | **3.6** | **5.1** |
| 2005-06 | Y DU | 1220 | 34,077 | 55,789 | 89,866 |
| | Cymru | 51 | 3,132 | 2,072 | 5,204 |
| | **% Cymru** | **4.2** | **9.2** | **3.7** | **5.8** |
| 2006-07 | Cymru | 37 | 1,481 | 2,208 | 3,689 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob prosiect pa un a oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud ag af ai peidio. Dylid nodi hefyd fod y ffigurau am swyddi a gwariant cyfalaf wedi'u seilio ar y ffigurau a nodwyd gan y cwmnïau adeg y penderfyniad i fuddsoddi ac nad ydynt yn adlewyrchu datblygiadau ers hynny.

**Val Lloyd**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei bolisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49440)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 26 Chwefror.*

**Andrew Davies:** Mae'r polisïau yr ydym wedi eu rhoi ar waith yn Nwyrain Abertawe wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran eu heffaith bositif ar ddatblygu economaidd, yr amgylchedd ffisegol a chymunedau lleol. Mae'r cymorth yr wyf yn dal i'w roi i ddatblygiad SA1 yn dyst i hyn. Mae'r datblygiad wedi gweddnewid yr ardal hon o ddiffeithdra yn gyrchfan busnes a ffordd o fyw newydd, ddeniadol a llewyrchus. Mae dros £80 miliwn o arian sector preifat wedi cael ei fuddsoddi hyd yma yn erbyn £38 miliwn o arian cyhoeddus.

Mae ein gweithgareddau adfywio cymunedol yn yr etholaeth wedi bod yn sylweddol hefyd, yn cynnwys prosiect peilot yn ward St Thomas lle'r ydym wedi dod ag adfywio cymunedol a datblygu cyfalaf ynghyd yn llwyddiannus. Yr ydym hefyd wedi cefnogi gwaith ymgynghorol yn yr Hafod, prosiectau yn Penderry ac offer TG newydd i'r ganolfan adnoddau gweithredu. Yr ydym wedi cefnogi canolfan Spark ym Mlaenymaes, ymgynghoriad â'r gymuned ym Mhen-lan a chylchlythyr ym Môn-y-maen.

Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy ei menter ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, wedi buddsoddi dros £25 miliwn mewn prif seilwaith ffyrdd, pontydd a safleoedd i wasanaethu Cwm Tawe a pharc menter Abertawe. Mae hyn wedi dod â datblygiadau newydd o bwys ymlaen, yn cynnwys y rheini a gynorthwywyd â mwy na £5.8 miliwn o grantiau datblygu eiddo—fel Matrix Court, Heron Court, Ethnic Cuisine, Pure Wafer a Glass Systems.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth ynglŷn â chyfanswm grantiau gan y Cynulliad Cenedlaethol a chymorth ariannol arall a roddwyd i Lofa'r Tŵr ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ49564)

**Andrew Davies:** Nid oes grantiau na chymorth arall wedi cael eu rhoi i Lofa'r Tŵr yn ystod y cyfnod er 1999. Dywedir wrthyf fod prosiect peilot i gael ei gynnal gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Diben y prosiect yw galluogi gweithwyr yng Nglofa'r Tŵr y bydd eu swyddi'n diflannu i ailhyfforddi. Ni fydd y prosiect yn rhoi taliadau i Lofa'r Tŵr. O dan y prosiect byddai taliadau'n cael eu gwneud i ddarparwyr hyfforddiant sy'n darparu'r hyfforddiant. Pe bai unigolion yn wynebu costau teithio neu lety mewn perthynas â'r hyfforddiant efallai y gallant hwy hefyd gael ad-daliad ar sail unigol. Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn costio £350,000.

Mae cymorth wedi cael ei roi i Lofa'r Tŵr gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn ystod y cyfnod hwn, gwerth £8,945,000 i gyd dan y cynllun cymorth gweithredu a £3,057,304 dan y cynllun cymorth buddsoddi mewn glo.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau damweiniau ymhlith pobl ifanc ar ffyrdd Cymru? (WAQ49567)

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau marwolaethau ymhlith pobl ifanc ar ffyrdd Cymru? (WAQ49568)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn pryderu'n fawr am farwolaethau ymhlith pobl ifanc, ac yn arbennig fod lleiafrif o yrwyr ifanc fel pe baent ag agwedd ddifrifol o anniogel tuag at beryglon gyrru. Mae nifer fawr o wrthdrawiadau yn amlwg yn cynnwys gyrwyr ifanc, felly mae'n hanfodol ein bod yn trosglwyddo'r negeseuon hyn iddynt.

Yr ydym yn tynnu sylw at negeseuon allweddol diogelwch ar y ffyrdd drwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau ac ymgyrchoedd hysbysebu, a thrwy gynhyrchu llenyddiaeth ddwyieithog. Yr ydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau i gefnogi Pass Plus Cymru, cynllun hyfforddi unigryw i yrwyr sy'n anelu at roi sgiliau a phrofiad gyrru ychwanegol i yrwyr ifanc i helpu i leihau'r risg y byddant yn cael gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried ailasesu'r sail dros gyflwyno cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd Cymru ac, os ydyw, a wnaiff hi roi manylion ynghylch yr hyn y mae'n ei ystyried o ran meini prawf i'w mabwysiadu mewn ardaloedd cyfyngiad cyflymder penodol? (WAQ49569)

**Andrew Davies:** Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am osod cyfyngiadau cyflymder ar gefnffyrdd yng Nghymru, a'r awdurdodau lleol perthnasol sy'n gyfrifol am y ffyrdd eraill. Mae canllawiau posibl ar osod cyfyngiadau cyflymder yng Nghymru yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn y dyfodol agos. Wedyn, cynigir cyfnod o dri mis o ymgynghori â'r heddlu, awdurdodau lleol a'r cyhoedd, i fesur barn am faterion allweddol fel cyfyngiadau cyflymder drwy bentrefi, hierarchaeth ffyrdd briodol o ran cyflymder traffig a chyfyngiadau 20 mya.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd ar yr A44 yn ardal Lovesgrove? (WAQ49570)

**Andrew Davies:** Tynnodd coeden a oedd wedi cwympo yr ymyl a oedd yn cynnal y ffordd, ac mae traffig unffordd yn cael ei orfodi ar hyn o bryd gan oleuadau traffig dros dro. Mae perchennog y tir wedi clirio'r goeden oedd wedi cwympo, ac mae hynny'n golygu bod modd gwneud gwaith adfer erbyn hyn ar ymyl y gerbydlon a'r clawdd. Rhagwelir y caiff y gwaith adfer ei gwblhau ganol mis Mawrth.

**Nick Bourne:** Pa asesiad diweddar a wnaed o risg llifogydd wrth ymyl yr A44 yn Lovesgrove, ac a wnaiff ef roi manylion unrhyw asesiad o'r fath? (WAQ49571)

**Andrew Davies:** Ni chafwyd llifogydd yn ddiweddar ar hyd y darn hwn o'r ffordd. Yr oedd yr erydu gydag ymyl SoDdGA Lovesgrove, sy'n ffinio â'r A44, yn cael ei ystyried yn risg o'r blaen, ond ers i Gyngor Cefn Gwlad Cymru wneud gwaith lliniaru yno'n ddiweddar ni chredir bod erydu yn y fan hon mwyach yn achosi risg fawr i'r ffordd. Yr oedd y gwaith yn cynnwys plannu ardaloedd o goed helyg yn gyfochrog â'r clawdd ar hyd ymyl y ffordd. Byddwn fodd bynnag yn parhau i fonitro'r sefyllfa, a phe bai pethau'n newid byddwn yn gweithredu fel sy'n briodol.

**Nick Bourne:** Pa adnoddau sy'n cael eu buddsoddi mewn technoleg sy'n ymwneud ag ynni'r haul yng Nghymru? (WAQ49574)

**Nick Bourne:** Pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud ym maes datblygu ynni'r llanw yng Nghymru? (WAQ49575)

**Nick Bourne:** Pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud ym maes datblygu ynni'r tonnau yng Nghymru? (WAQ49576)

**Nick Bourne:** Pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud ym maes datblygu ynni biomas yng Nghymru? (WAQ49577)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwydiant ynni adnewyddadwy llewyrchus a fydd yn manteisio'n llawn ar unrhyw adnoddau dichonadwy sydd gennym. Mae'r swm o £16.7 miliwn eisoes wedi cael ei ddarparu gan yr UE drwy raglen Amcan 1 i fuddsoddi mewn technolegau solar, llanw, tonnau a biomas.

Buddsoddwyd mewn technolegau solar gan G24i, sydd wedi buddsoddi £60 miliwn mewn technoleg ynni solar newydd. Mae Sharp wedi buddsoddi £20 miliwn ym maes cynhyrchu panelau solar poly a mono silicon. Mae Prifysgol Cymru, Bangor, hefyd yn ymgymryd ag ymchwil i'r genhedlaeth ffotofoltaidd nesaf. Mae'r rhaglen adeiladau carbon isel yn cynnig cymorth i sefydlu technolegau meicro-gynhyrchu ac mae £372,929 o arian grant wedi cael ei rwymo hyd yma.

Mae rhaglen Amcan 1 wedi cefnogi gwaith dichonoldeb ar ddau brosiect morol yng Nghymru, gwerth £1.4 miliwn. Yr ydym hefyd yn dyrannu £1 miliwn dros ddwy flynedd i brosiect ymchwil a fydd yn arwain at lunio'r strategaeth forol a fydd yn sefydlu pa adnoddau ynni adnewyddadwy morol sydd ar gael yng Nghymru a sut mae manteisio i'r eithaf ar eu potensial.

Mae Cyllid Cymru wedi rhwymo £560,000 o'r £5 miliwn a oedd ar gael drwy ei gronfa amgylcheddol, ac mae rhan o hynny'n cynnwys buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi buddsoddi £1.06 miliwn mewn ymchwil a datblygu i dechnolegau carbon isel yng Nghymru ac mae wedi clustnodi £10 miliwn ar gyfer ei chynllun partneriaeth o blaid ynni adnewyddadwy.

Yr ydym hefyd yn cyfrannu £134,500 at gostau gwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn astudio ynni'r llanw yn y DU. Mae'r gwaith hwn yn edrych ar wahanol dechnolegau i harneisio ynni'r llanw a disgwylir iddo fod â goblygiadau o bwys i ffynonellau llanw fel moryd Hafren ac Afon Menai ymysg eraill.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffordd ar yr A470 yn y Bontnewydd ar Wy? (WAQ49581)

**Andrew Davies:** Parhad yw'r gwaith ffordd ar yr A470 yn y Bontnewydd ar Wy o'r gwaith cynnal a chadw mawr a gafodd ei atal cyn iddo gael ei gwblhau y flwyddyn gynt oherwydd tywydd drwg ac anawsterau gyda'r gwaith o baratoi wyneb y ffordd ar gyfer y gwaith ailadeiladu. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr ysgol, dechreuwyd ar y gwaith yn ystod hanner tymor mis Chwefror gan ddefnyddio dulliau ailadeiladu traddodiadol. Dilynir y gwaith hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan ragor o waith cynnal a chadw mawr, a fydd yn golygu ailadeiladu a draenio darnau rhwng Cwm-bach a Ffordd Llanfair-ym-Muallt, ac i'r gogledd o'r Bontnewydd.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch beicwyr modur ac i wella diogelwch ar y ffyrdd o ran beicio modur yng Nghymru? (WAQ49590)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn pryderu am y nifer o feicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu mewn damweiniau ffordd yng Nghymru ac yr ydym wedi ymrwymo i leihau'r niferoedd. Mae mesurau i wella diogelwch beicwyr modur yn cynnwys cyfuniad o beirianneg, gorfodaeth, addysg a hyfforddiant. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu drwy'r cynllun Beicio Diogel, yr awdurdodau lleol a ROSPA i wella diogelwch i feicwyr modur ar y ffyrdd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi twristiaeth yng Nghymru? (WAQ49595)

**Andrew Davies:** Mae ein polisïau i gefnogi twristiaeth yng Nghymru wedi eu nodi yn y strategaeth dwristiaeth genedlaethol, 'Cyflawni ein Potensial'. Cafodd y strategaeth ei diweddaru y llynedd a bydd gweithredu'r blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r targedau ynddi dros y cyfnod rhwng 2006 a 2013 yn help i gynyddu gwariant a datblygiad twristiaeth yng Nghymru.

Mae ein strategaeth yn ategu ac yn cefnogi'r blaenoriaethau yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu', ein strategaeth datblygu economaidd ar ei newydd wedd.

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49617) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49616) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49618) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49619) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei adran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49615) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer hybu economi Llandrindod? (WAQ49657)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cynllun adfywio Llandrindod ar waith. Fe'i cymeradwywyd gan randdeiliaid allweddol lleol a'r gymuned yn 2006. Mae wedi mynd ati i ymdrin ag adfywio mewn ffordd integredig, gan wella perfformiad economaidd y dref i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.

Mae pum thema allweddol i'r cynllun:

1 adfer amgylchedd unigryw—drwy wella'r treflun, y strydlun a mannau agored;
2 gwella hygyrchedd—drwy reoli traffig;
3 cryfhau'r economi dwristiaeth—drwy ddatblygu un o brif ffactorau sbarduno economaidd y dref;

4 cefnogi datblygiad busnes—i weithgynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr swyddfeydd presennol.
5 ymateb i anghenion y gymuned—drwy gefnogi mesurau i fynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol a thlodi ymhlith plant, a hyrwyddo datblygu sgiliau.

Mae'r gweithredu sydd wedi deillio o hyn ar ran Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys:

- cwblhau uned fusnes 600 metr sgwâr. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt yn dda gyda chwmni lleol;
- mae dwy uned fusnes 250 metr sgwâr i fod i gael eu codi yn ystod 2007-08;
- mae cynigion ar gyfer ffordd gyswllt yng nghanol y dref i hwyluso datblygu archfarchnad newydd wedi cael eu cwblhau ar eu gwedd derfynol gyda Chyngor Sir Powys;
- cytunwyd gyda'r cyngor i ymgymryd â rhaglen fawr o welliannau amgylcheddol yng nghanol y dref;
- mae safle yng nghanol y dref wedi cael ei ddynodi'n ailddatblygiad strategol.

**Nick Bourne:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal colli 37 o swyddi yn Setten a Derward yn Llandrindod? (WAQ49658)

**Andrew Davies:** Mae Setten a Durward yn gweithredu mewn marchnad hynod o fasnachol lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau economaidd rhesymegol. Mae tueddiadau byd-eang cynyddol yn golygu bod yn rhaid i'r cwmni aros yn gystadleuol. Er bod colli 37 o swyddi'n destun gofid, bydd y cwmni'n dal i gyflogi 178 o bobl yn ei waith yn Llandrindod, ac ef fydd y cyflogwr sector preifat mwyaf yn y dref o hyd. Mae fy adran yn dal i weithio gyda Chyngor Sir Powys, y cwmni a'r sector preifat i sicrhau dyfodol safle ffordd Waterloo yn y tymor canolig.

**Nick Bourne:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i helpu'r sawl yr effeithir arnynt yn sgil colli swyddi yn Setten a Derward yn Llandrindod? (WAQ49659)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn noddi nifer o sefydliadau i helpu pan fydd busnesau'n cau neu'n crebachu. Trefnwyd diwrnod agored yn y dref i'r rhai yr effeithir arnynt yn Setten a Durward ddydd Mawrth 27 Chwefror. Ymysg y rhai oedd yn bresennol yr oedd Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Llygad Busnes, a chyrff hyfforddi. Cafodd staff lleol gyngor pwrpasol, unigol yn ôl eu hamgylchiadau.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda rheolwyr Setten a Derward yn Llandrindod ynghylch y cynlluniau i ddileu swyddi? (WAQ49660)

**Andrew Davies:** Hysbyswyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr wythnos ddiwethaf o benderfyniad Setten a Durward i ddileu'r swyddi hyn, gan ddweud mai tueddiadau cystadleuol ar draws y byd ac yn y DU a statws Powys fel ardal nas cynorthwyir o'i chymharu â rhai o'i chystadleuwyr oedd y rheswm. Mae fy adran yn y Canolbarth wedi cynnal trafodaethau gyda'r cwmni cyn hyn am ailddatblygu ei safle ar ffordd Waterloo, gyda golwg ar ryddhau cyfalaf ar gyfer arbedion effeithlonrwydd.

**Trish Law:** A gynigiwyd cymhelliant ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwmnïau electroneg yn y De Ddwyrain er mwyn iddynt recriwtio staff newydd o blith cyn weithwyr LG Electronics a gaeodd yng Nghasnewydd yn ddiweddar? (WAQ49664)

**Andrew Davies:** Mae rhaglen ReAct yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bwriadwyd hi i ategu ac ychwanegu at y gwasanaeth a gynigir i weithwyr y dilëir eu swyddi gan Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae cymorth ReAct yn cael ei gyllido'n rhannol gan gronfa gymdeithasol Ewrop a'i diben yw rhoi sylw i anghenion pobl y mae eu swyddi wedi cael eu dileu, neu y rhoddwyd rhybudd

iddynt y caiff eu swyddi eu dileu, drwy gyfres o fesurau a gynlluniwyd i gael gwared â rhwystrau rhag cael cyflogaeth newydd.

Mae'r ffigurau isod yn cynrychioli gweithgarwch ReAct, o'r unigolion hynny a gollodd eu swyddi gyda LG Philips ar ddiwedd 2006 ymlaen ond nid ydynt yn cynnwys y rhai a gollodd eu swyddi gydag LG Philips Displays yn 2003-04. Mae ReAct yn darparu cymorth mewn sawl maes ac mae'r nifer o weithwyr LG a fanteisiodd ar hynny ym mhob maes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Galwedigaethol | 98 |
| Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr | 7 |
| Cymorth Hyfforddi i Gyflogwyr | 3 |
| Teithio a Llety | 31 |
| Llyfrau, Cyfarpar ac Arall | 5 |
| Cymorth Gofal Plant | 1 |

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod saith cyflogwr lleol wedi manteisio ar ReAct i gyflogi gweithiwr a gollodd ei swydd ac, o'r rhain, defnyddiodd tri ReAct hefyd i helpu i dalu'r gost o'u hyfforddi. Defnyddiodd 98 o weithwyr ReAct i uwchraddio eu sgiliau a gwella eu cyfle o sicrhau cyflogaeth newydd, gynaliadwy. Mae gweithwyr LG yn dal i fod yn gymwys o dan ReAct a byddwn yn disgwyl i'r ffigurau hyn gynyddu dros y misoedd i ddod, yn enwedig o ran y rhai sy'n manteisio ar gymorth recriwtio i gyflogwyr.

Gall pob cyflogwr yng Nghymru fanteisio ar elfennau cymorth recriwtio i gyflogwyr a chymorth hyfforddi i gyflogwyr ReAct cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cymorth gwladol ac mae gan Ganolfannau Gwaith lleol yng Nghasnewydd wybodaeth am y cymorth sydd ar gael drwy ReAct. Felly, mae cymhellion ariannol ar gael i gyflogwyr lleol i gyflymu eu proses recriwtio a chyflogi gweithiwr sydd wedi colli ei swydd yn LG. Mae'r cymhellion hyn yn £2,080 sy'n daladwy mewn pedwar rhandaliad dros y flwyddyn gyntaf i'r rhai sy'n cael cymorth recriwtio i gyflogwyr ac yn 70 y cant o'r costau hyfforddi, hyd at uchafswm o £1,000, i'r rhai sy'n manteisio ar gymorth hyfforddi i gyflogwyr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49234)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Yr oedd cyfanswm y gwariant ar gyhoeddusrwydd a gaffaelwyd yn ganolog gan yr uned gyfathrebu ganolog rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2006 yn £112,000. Ymysg enghreifftiau o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd yr oedd hyrwyddo polisïau addysg yn cynnwys grantiau dysgu unigol, grantiau dysgu'r Cynulliad a dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r gwariant ar gyhoeddusrwydd a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (y tu allan i'r gyllideb gyhoeddusrwydd ganolog) dros yr un cyfnod yn £431,253.20 ar hyn o bryd. Yr oedd hyn yn cynnwys gwaith cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r meysydd polisi allweddol canlynol:

- brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd;
- Ymestyn Hawliau;
- cyfrifon dysgu unigol Cymru;
- Cymraeg i oedolion;
- Cyllid Myfyrwyr Cymru;
- marchnata cymorth busnes.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes y portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes yn etholaeth Ogwr er 2003? (WAQ49470)

**Jane Davidson:** Er 2003 bu llawer o ddatblygiadau cyffrous a chadarnhaol ym maes addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn etholaeth Ogwr ac yn wir ar draws ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyfanrwydd. Nid oes data ar gael yn gyffredinol ar sail etholaeth felly yr wyf yn cynnwys manylion ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

**Sylfeini Cryfion**
Mae llawer o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd o dan anfantais yn cael help drwy gynllun grant Cymorth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cyllid Pen-y-bont ar Ogwr yn 2006-07 yn £2,343,169 ac mae'n cael ei ddyrannu drwy 56 o brosiectau unigol.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn targedu plant rhwng 0 a thair oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a chaiff ei dosbarthu drwy ddalgylchoedd ysgolion a enwebwyd fel y rhai sy'n cynrychioli'r ardaloedd hynny orau. Y nifer targed o blant y mae Pen-y-bont ar Ogwr i fod i'w cyrraedd yw 680.

Mae cyllid Pen-y-bont ar Ogwr yn 2006-07 yn £431,974, gyda £127,000 ychwanegol i gynorthwyo'r elfennau gofal plant ym mhrosiect cyfalaf ysgolion Afon y Felin a Betws. Mae'r cyllid ar gyfer 2007-08 yn £1,106,463, ac mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfle hefyd i gyflwyno cais yn erbyn £3.5 miliwn sydd ar gael ar draws Cymru yn 2007-08.

Y dalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael eu cymeradwyo hyd yma yw:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Betws | Heol Bradford, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8TB |
| Ysgol Fabanod Blaenllynfi - | Grosvenor Terrace, Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr CF34 0PP |
| Ysgol Iau Blaencaerau | Blaencaerau Road, Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr CF34 0RW |
| Afon y Felin | Heol y Parc, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr CF33 4PA |

Mae Ysgol Babyddol St Mary's a Chylch Chwarae'r Pentref, Abercynffig, ill dau yn cymryd rhan ym mheilot y Cyfnod Sylfaen.

Mae cyfanswm o bedair ysgol yn etholaeth Ogwr eisoes wedi ymuno â'r cynllun brecwast ysgol am ddim i ysgolion cynradd, gan weini brecwast i 180 o blant yr wythnos ar gyfartaledd. Mae dwy ysgol arall i fod i ddechrau yn ystod tymor y gwanwyn 2007. Mae rhestr o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun ar gael ar y wefan: http://urlcutter.com/healthybreakfast.

Drwy'r grant arbennig cyfarpar i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, mae awdurdod addysg lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael dyraniadau gwerth £22,031 a £21,986 i gyd ar gyfer 2005-06 a 2006-07, y naill a'r llall. Nod y grant yw darparu cyfarpar arbenigol a chymhorthion cyfathrebu y mae mawr eu hangen i alluogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig i fanteisio ar y cwricwlwm.

Gyda'i gilydd bydd Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot yn cael £294,136 dros dair blynedd cynllun grant i dreialu prosiectau gwasanaethau lleferydd ac iaith. Nod y prosiect peilot yw datblygu trefniadau i gydgomisiynu gwasanaethau lleferydd ac iaith ar draws iechyd ac addysg drwy ddatblygu partneriaethau strategol a gwasanaethau integredig.

Fel rhan o strategaeth ehangach y Cynulliad i godi safonau i grwpiau dan anfantais, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £5.1 miliwn dros dair blynedd, o fis Medi 2006, i'r 22 AALl yng Nghymru i sefydlu prosiectau peilot i ysgolion arbennig, 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig'. Nod y cynllun yw hyrwyddo cynhwysiant a datblygu rôl ysgolion arbennig drwy ganfod a lledaenu arferion da o ran datblygu cysylltiadau ymarferol ag ysgolion prif ffrwd a hyrwyddo cyfraniad ysgolion arbennig i gyfundrefn addysg sy'n dod yn fwy a mwy cynhwysol. Mae £226,443 wedi cael ei ddyrannu i AALl Pen-y-bont ar Ogwr o'r cynllun grant blaengar hwn.

Ar gyfer 2006-07, mae rhyw £900,000 wedi cael ei ddyrannu i AALlau yng Nghymru dan y cynllun grant i Sipsiwn/Teithwyr a phobl wedi'u dadleoli. Arian yn benodol i wella presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniadau disgyblion sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru yw hwn, ac mae cyfran AALl Pen-y-bont yn £25,859.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cyfanswm o £65,000 yn y flwyddyn ariannol hon o gynllun grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n anelu at wneud y cyfleoedd addysgol i bob grŵp lleiafrif ethnig yn fwy cyfartal. Mae'n cynnwys, yn arbennig, fesurau i helpu disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a mesurau i wella safonau cyrhaeddiad ac i fynd i'r afael â'r risg o dangyflawni.

Yng Nghymru yn 2006-07, mae rhyw £2.4 miliwn wedi cael ei ddyrannu dan y cynllun grant i geiswyr lloches i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol a gofynion cymorth canolog i ddisgyblion sy'n geiswyr lloches. Mae cyfran Pen-y-bont o hyn yn £5,468.

**Ysgolion a dysgu**
Ar draws awdurdod addysg lleol Pen-y-bont ar Ogwr, dan y grantiau gwella adeiladau ysgolion, ar gyfer 2006-07 yr oedd y dyraniad fformiwla yn £809,000 ac yn 2007-08 bydd yn £1,646,000.

Mae 'cyfandaliad' grant gwella adeiladau ysgolion o £9 miliwn wedi cael ei ddyrannu i Ben-y-bont hefyd rhwng 2005-06 a 2009-10 ar yr amod y cwblheir yr holl ofynion statudol angenrheidiol yn foddhaol. Bydd hyn yn ei galluogi i godi dwy ysgol newydd, ysgol gynradd Pen y Fai ac ysgol gynradd Caerau, ynghyd ag un estyniad sylweddol at ysgol (ysgol gynradd Maes yr Haul).

Hefyd, mae £520,000 wedi cael ei ddyrannu o gronfa gyfalaf ranbarthol grant gwella adeiladau ysgolion y Cynulliad ar gyfer 2006-07 i Ysgol Arbennig Heronsbridge ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth arbennig yno ymhellach. Mae 271 o ddisgyblion cymwys o Ben-y-bont ar Ogwr wedi elwa'n unigol drwy gael grant gwisg ysgol £95 Llywodraeth y Cynulliad yn 2006-07.

Cynyddodd y ganran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y dangosyddion pynciau craidd ar draws yr holl gyfnodau allweddol rhwng 2003 a 2006 yn etholaeth Ogwr. Bu cynnydd hefyd yn yr un cyfnod yn y ganran o ddisgyblion a enillodd bump neu fwy o TGAU ar raddau A* i C.

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad i roi ei strategaeth ieithoedd tramor modern ar waith, Ieithoedd sy'n Cyfrif, gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n ymgymryd ag ieithoedd modern ac yn eu hastudio. Penodwyd CILT Cymru, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol yng Nghymru, i reoli'r strategaeth, sy'n cynnwys cefnogi rhaglen beilot i glystyrau o ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd cysylltiol er mwyn dysgu ieithoedd tramor modern ar lefel ysgol gynradd. Mae nifer o ysgolion cynradd ac iau yn etholaeth Ogwr yn cymryd rhan yn y peilot hwn, sydd wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar tan haf 2008.

Mae'r rhaglen i godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru yn ceisio targedu'r cysylltiadau rhwng amddifadedd a chyraeddiadau isel disgyblion. Darperir arian grant i ysgolion sydd â mwy na 50 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol ar y gofrestr lle mae gan fwy nag 20 y cant hawl i brydau ysgol am ddim. Darperir cyllid am ddwy flynedd (2006-07 a 2007-08). O'r £14.6 miliwn a ddosbarthwyd yn 2006-07, cafodd 36 o ysgolion yn etholaeth Ogwr gyfran o £434,272 o arian grant. Yn ychwanegol, fel rhan o raglen ehangach Rhagori, caiff arian ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy grant Rhagori i blant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn eu galluogi i ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai ym mlynyddoedd 10 ac 11, i'w galluogi i fynd ymlaen i addysg bellach ac uwch neu i ddysgu seiliedig ar waith. O'r £1 miliwn a ddosbarthwyd yn 2006-07, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfran o £42,443 ar ffurf arian grant plant sy'n derbyn gofal.

**Llwybrau Dysgu 14-19 a Thu Hwnt**

Fel rhan o strategaeth llwybrau dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru gyfan, dyrannwyd £181,133 i Ben-y-bont ar Ogwr yn 06-07, a £683,321 yn 07-08. Nod y strategaeth yw trawsnewid cyfnod addysgol 14-19 i ddysgwyr, ac mae'n canolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth addysg alwedigaethol, datblygu cymorth i ddysgwyr, a gwella'r cydweithredu rhwng darparwyr dysgu.

Mae Coleg Pen-y-bont ac ysgol gyfun Bryntirion wedi cymryd rhan yn nhrydedd garfan cynllun peilot cymhwyster ôl-16 bagloriaeth Cymru—ymunodd y naill a'r llall â'r peilot ym mis Medi 2005. Mae ysgol gyfun Bryntirion hefyd yn cymryd rhan ym mheilot sylfaen a chyn-16 canolradd cymhwyster bagloriaeth Cymru, a ddechreuodd ym mis Medi 2006. Ymgeisiodd y ddwy ganolfan yn llwyddiannus i gynyddu maint eu carfannau cymhwyster bagloriaeth Cymru ôl-16 o fis Medi 2007.

**Y Tu Hwnt i Addysg Orfodol**
Ym mis Ebrill 2006, talwyd £20,000 o arian buddsoddi cyffredin i gefnogi'r opsiwn ôl-16 ar y cyd sy'n cael ei ddarparu gan ysgolion uwchradd Ogwr ac Ynysawdre. Mae'r trefniant hwn ar ei ail flwyddyn ar hyn o bryd a hyd yma mae dros 80 o fyfyrwyr wedi teithio rhwng y ddwy ysgol i fanteisio ar yr ystod ehangach o lwybrau dysgu sy'n cael eu cynnig. Mae'r cydweithredu hwn wedi bod yn help i ddatblygu cyrsiau galwedigaethol ac mae darpariaeth a gynlluniwyd o'r newydd yn cael ei chynnig yn y celfyddydau perfformio, chwaraeon, TGCh ac adeiladu. Ochr yn ochr â hyn, mae cyrsiau a oedd yn bodoli eisoes wedi parhau ac maent yn cael eu darparu ar sail fwy cost-effeithiol.

Mae'r nifer o bobl ifanc a gymeradwywyd i gael lwfans cynhaliaeth addysg yn 1,310 ac, o'r rheini, mae 1,060 (neu 81 y cant) yn gymwys i gael y dyfarniad wythnosol uchaf o £30 yn AALl Pen-y-bont ar Ogwr (data dros dro am 2006-07).

Mae 660 o fyfyrwyr cymwys wedi elwa o grant dysgu'r Cynulliad yn 2005-06. Mae'r grant hwn yn dal i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel pan fyddant yn ymgymryd â chyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Mae grant dysgu'r Cynulliad yn grant nad oes gofyn ei ad-dalu o hyd at £1,500.

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49621) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49622) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49623) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49624) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei hadran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49625) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Alun Cairns:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Gemau Olympaidd Llundain 2012 ar lefel y cyllid a dderbynnir gan brifysgolion a phrosiectau eraill yng Nghymru? (WAQ49648)

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau y mae’r Gweinidog wedi’u gwneud i sicrhau nad yw prifysgolion chwaraeon Cymru’n cael eu hamddifadu o gyllid a allai ddeillio o’r Gemau Olympaidd? (WAQ49651)

**Alun Cairns:** Pa drafodaethau, os o gwbl, y mae’r Gweinidog wedi eu cael gyda phrifysgolion chwaraeon Cymru, megis UWIC, ynghylch agoriadau masnachol a allai ddod yn sgil y Gemau Olympaidd? (WAQ49650)

**Alun Cairns:** Pa gefnogaeth y mae’r Gweinidog wedi ei chynnig i Brifysgolion Cymru i hwyluso eu cyfleoedd i ddenu agoriadau masnachol a allai ddod yn sgil y Gemau Olympaidd? (WAQ49649)

**Jane Davidson:** Yr wyf wrth gwrs yn awyddus i sicrhau bod ein sefydliadau addysg uwch yn manteisio ar bob cyfle i arddangos eu hunain a Chymru ac i fanteisio ar y cyfleoedd masnachol sy’n dod yn sgil Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012. Yn dilyn cynhadledd fechan am y gwersylloedd hyfforddi cyn y gemau yn ddiweddar, y gwahoddwyd sefydliadau AU i fod yn bresennol ynddo, rhoddodd cyfarwyddwr Cymru ar gyfer gemau 2012 gyflwyniad cynnar i bwyllgor trydedd genhadaeth y cyngor cyllido, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau AU, i’w gwneud yn ymwybodol o’r cyfleoedd hyn. Yr ydym yn obeithiol y caiff llawer o’n cyfleusterau, o safon fyd-eang, eu cynnwys maes o law yng nghanllawiau hyfforddiant cyn y gemau Pwyllgor Trefnu Llundain, sydd i gael eu cyhoeddi yn 2008, ac y byddant yn croesawu athletwyr o bob rhan o’r byd yn y cyfnod yn arwain at y gemau eu hunain. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd o ran darparu gwasanaethau, yn cynnwys llety, gwyddor chwaraeon, hyfforddi staff a gwirfoddolwyr ac ati. Byddai myfyrwyr sy’n gallu gwirfoddoli yn elwa drwy ddangos eu sgiliau a pha mor gyflogadwy ydynt. Byddwn yn annog sefydliadau i ystyried yr hyn y gallant ei gynnig ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â sefydliadau eraill. Gall y ffrydiau ariannu presennol ar gyfer y drydedd genhadaeth gael eu defnyddio gan sefydliadau AU lle mae hyn yn cyd-fynd â’u strategaeth drwyddi draw. Mae swyddogion o’r cyngor cyllido ac Addysg Uwch Cymru hefyd wedi cwrdd â swyddogion yn yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn Llywodraeth y Cynulliad i ystyried cyfleoedd eraill fel, er enghraifft, y rhai yn ymwneud â gwyddoniaeth, arloesi a thechnegol yng nghyd-destun 2012.

Ar hyn o bryd mae’r Loteri Genedlaethol wedi ymrwymo i ddarparu £1.5 biliwn tuag at gostau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012, a bydd £410 miliwn o’r swm hwnnw’n dod yn uniongyrchol oddi wrth yr achosion da presennol. Er bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bryderon am yr effaith ar yr arian Loteri a fydd ar gael i achosion da yng Nghymru, er gwaethaf y dyfalu yn y cyfryngau nid oes datganiad wedi cael ei wneud am unrhyw gynnydd yn yr arian Loteri i Gemau 2012 na sut y bydd y cyllid sydd wedi cael ei rwymo eisoes yn cael ei dynnu i lawr.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau’r arian ar gyfer Darparu Hyfforddiant a Gwybodaeth i weithredwyr economaidd yn y meysydd a ddaw dan Echel 3 fel rhan o’r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49011)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau’r arian ar gyfer Meddu Sgiliau ac Animeiddio gyda golwg ar baratoi a gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol fel rhan o’r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49012)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau’r arian ar gyfer Strategaethau Datblygu Lleol fel rhan o’r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49013)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Grant Gwella Ffermydd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49014)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Grant Menter Ffermydd fel rhan o'r Gronfa Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49015)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Grant Bychan Prosesu a Marchnata fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49016)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Grant Prosesu a Marchnata fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49017)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Tir Gofal fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49018)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Tir Mynydd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49019)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Cynllun Ardal Amgylcheddol Sensitif fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49020)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer y Cynllun Ffermio Organig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49021)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Cynefinoedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49022)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Cynlluniau'r Coedlannau fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49023)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol i'r Economi Wledig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49024)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Adnewyddu a Datblygu Pentrefi fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49025)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Annog Twristiaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49026)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Arallgyfeirio (Grant Mentrau Ffermydd nad ydynt yn Amaethyddol) fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49027)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Tir Cynnal fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49028)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Ffermio Sensitif i Ddalgylch fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49029)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer newydd-ddyfodiaid fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49030)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49031)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Cyswllt Ffermio fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49032)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Gwarchod Enwau Bwyd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49033)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Cymorth i Greu a Datblygu Busnes fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49034)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Annog Gweithgareddau Twristiaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49035)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol i'r Economi a'r Boblogaeth Wledig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49036)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Adnewyddu a Datblygu Pentrefi fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49037)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cynlluniau ariannu, a ffynonellau'r arian ar gyfer Cadw a Gwella'r Dreftadaeth Wledig fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2007-13? (WAQ49038)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r wybodaeth wedi'i nodi isod. Dangosol yw'r amcanestyniadau ariannol, a'r ffynonellau cyllido, am ddau reswm:

(i) mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i fireinio'r cynllun olynu cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw'r manylion o ran defnyddio'r ddarpariaeth 'cymorth technegol' dan gronfa amaethyddol Ewrop ar gyfer datblygu gwledig ar eu gwedd derfynol eto a bydd hynny, yn ei dro, yn effeithio ar y cyllid domestig ar gyfer monitro a gwerthuso.

(ii) dim ond ar gyfer 2007-08 y mae cyllideb y cytunwyd arni a chynlluniau dangosol sydd wedi cael eu cyhoeddi am 2008-09 a 2009-10. Bydd mesurau echel 2 yn cael eu hadolygu gyda'r nod o weithredu newidiadau yn 2009. Dangosol yw'r holl ffigurau a'r cyfansymiau mewn perthynas â 2009 i 2013 a byddant yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad cynlluniedig hwn. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu parhau â chynlluniau echel 2 ar eu ffurf bresennol ar ôl 2008. Bydd cynlluniau olynu ar waith o 2009.

At ddibenion y cynllun olynu, mae'r manylion o ran cymorth i newydd-ddyfodiaid yn cael eu cwblhau ond y nod yw cyflwyno hyn drwy ffrydiau gwaith cynghori ffermwyr a Chyswllt Ffermio echel 1. Nid oes cynlluniau i barhau â'r grant gwella ffermydd, y grant mentrau fferm a'r cynlluniau grantiau bychan prosesu a marchnata dan y cynllun olynu.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 – 49038; a wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y gwariant fesul cynllun fesul cronfa ar gyfer pob blwyddyn ariannol? (WAQ49411)

**Carwyn Jones:** I'r diben o gyllido gweithgareddau o dan y cynllun datblygu gwledig olynol, mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd fod y dyraniadau i Gymru o gronfa amaethyddol Ewrop ar gyfer datblygu gwledig, derbyniadau o fodiwleiddio gorfodol ac o'r cronfeydd strwythurol yn cael eu trin fel un ffynhonnell gyllido, gan roi sylw hefyd i'r trothwyon isafswm gwariant a'r agweddau cydgyllido a nodwyd yn rheoliad 1698/2005 y cyngor. Mae cyllid yr UE yn gyfanswm o £195 miliwn dros y cyfnod 2007 i 13 ac mae'r amcanestyniadau gwariant i'w gweld yn y tablau, fesul mesur a fesul echel, dan 'EU'.

Ar ben hynny, mae'r cyfeiriad at 'domestig' yn y tablau yn cynnwys yr amcanestyniadau cymorth ariannol a fydd ar gael yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae 'VM' yn cyfeirio at yr amcanestyniadau gwariant y bydd derbyniadau o fodiwleiddio gwirfoddol yn cyfrannu atynt. Mae'r tablau hyn wedi cael eu rhoi yn y Llyfrgell.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau a dderbyniodd ynghylch analluedd pobl i sicrhau morgeisi ar gyfer cartrefi a adeiladwyd gyda chytundebau adran 106 sy'n pennu pryniant lleol yn unig? (WAQ49555)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi cael sylwadau oddi wrthych chi'n ddiweddar ar y mater hwn, yn canolbwyntio ar y cyfyngiadau ailwerthu a roddir ar y benthyciwr pe câi eiddo ei ailfeddiannu. Nod cytundebau adran 106 yn y cyd-destun hwn yw cyfrannu tuag at ddiwallu angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy a sicrhau bod y tai fforddiadwy a ddarperir yn cael eu meddiannu am byth gan bobl sy'n dod o fewn categorïau angen neilltuol. I gyflawni hyn, dylai cytundebau o'r fath gynnwys mecanwaith 'rhaeadru' i sicrhau y canfyddir deiliaid i dai fforddiadwy bob amser pan fydd tai o'r fath yn dod yn wag. Pe na bai deiliad o'r fath yn cael ei ganfod, gallai'r cytundeb gynnwys darpariaeth i werthu ar y farchnad agored pe bai'r eiddo'n cael ei ailfeddiannu gan y benthyciwr. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw cynnwys cymal o'r fath, a bydd angen iddo bwyso a mesur buddiannau'n ofalus a llunio barn ei hun ym mhob achos.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r manylion diweddaraf ynglŷn ag unrhyw drafodaethau a gafodd ynghylch pwysigrwydd y Sefydliad Tir Glas ac Ymchwil i'r Amgylchedd i economi Cymru, ac economi'r Deyrnas Unedig, gan roi manylion unrhyw drafodaethau diweddar? (WAQ49572)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o IGER a phrifysgolion Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2006. Mae fy uwch swyddogion yn gweithio'n agos gyda IGER, y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol, DEFRA a Phrifysgol Cymru i ddatblygu dull consortiwm o ymdrin ag ymchwil yng Nghymru. Maent yn rhoi gwybodaeth lawn imi am y datblygiadau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Sefydliad Tir Glas ac Ymchwil i'r Amgylchedd yn Bow Street, Aberystwyth? (WAQ49573)

**Carwyn Jones:** Mae IGER yn Aberystwyth yn rhan allweddol o rwydwaith sefydliadau'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol. Yr wyf yn eithriadol o awyddus i gadw canolfan wyddonol gref yma ac mae fy swyddogion yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau gyda IGER a'r

prifysgolion am ddatblygu dull consortiwm o ymdrin ag ymchwil. Mae trafodaethau ar y gweill am opsiynau i lywodraethu IGER mewn cysylltiad â Phrifysgol Cymru i'r dyfodol. Croesawaf benodiad yr Athro Mervyn Humphreys fel cyfarwyddwr IGER i gymryd lle'r Athro Chris Pollock, sy'n ymddeol.

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i amddiffyn treftadaeth arfordirol Cymru? (WAQ49580)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog pob corff sydd â chyfrifoldeb gweithredol am reoli risg arfordirol i lunio grwpiau i reoli'r arfordir yn fwy strategol. Mae'r grwpiau, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, ac eraill sydd â buddiannau sylweddol, yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd wedi bod i gyfarfodydd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi hyrwyddo paratoi cynlluniau rheoli traethlin. Mae cynlluniau rheoli traethlin yn ddogfennau allweddol er sicrhau bod y risg i bobl ac i'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol yn cael ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried prosesau arfordirol naturiol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido gwelliannau amddiffyn yr arfordir sy'n cael eu hyrwyddo gan awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae llawer o'r prosiectau hyn o fudd hefyd i asedau arfordirol pwysig fel harbwr Aberaeron, y promenadau Fictoraidd yn Llandudno ac Aberystwyth a safleoedd amgylcheddol Gwastadeddau Gwent.

Noddodd Llywodraeth y Cynulliad arolwg cynhwysfawr o olion archeolegol ar hyd y morlin yn y 1990au hwyr ac ers hynny mae wedi cefnogi amryw o gynlluniau cloddio i achub safleoedd sydd dan fygythiad oherwydd erydu arfordirol.

Mae'r amgylchedd arfordirol, yn cynnwys ei dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol, yn wynebu pwysau o wahanol fathau. Mae trefn newydd Llywodraeth y Cynulliad i Gymru, rheolaeth integredig ar barthau arfordirol, sydd i gael ei chyhoeddi'n fuan yn rhoi fframwaith er mwyn ymdrin â'r pwysau hyn yn well yn y dyfodol.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei adran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49620) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49626) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49627) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49628) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49629) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa bryd y disgwylir penderfyniad am (a) gwahardd y dip defaid cypermethrin neu (b) godi'r gwaharddiad dros dro? (WAQ49679)

**Carwyn Jones:** Cafodd y penderfyniad i atal y caniatâd marchnata i cypermethrin ei wneud gan Weinidogion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn sgil cyngor gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. Nid yw materion yn ymwneud â meddyginiaethau milfeddygol wedi cael eu datganoli. Fodd bynnag, fe'm hysbyswyd bod Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid ar hyn o bryd am gynnwys astudiaeth ac arfarniad o'r opsiynau er mwyn ymateb i'r risgiau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chynnyrch dip defaid, cypermethrin yn arbennig. Mae'r adroddiad yn ystyried y pedwar prif fater lle mae angen pwyso a mesur yr effeithiau positif a negyddol, h.y. yr effaith ar ddŵr, cost y driniaeth i'r ffermwr, cynyddu ymwrthedd i driniaethau a'r cynnydd mewn costau rheoleiddio. Mae'r adroddiad i fod i gael ei gwblhau ar ei wedd derfynol a'i adolygu gan gymheiriaid cyn cael ei gyhoeddi cyn cyfarfod nesaf y grŵp llywio dip defaid ar 17 Ebrill 2007. Unwaith y bydd wedi cael ei ystyried gan y grŵp hwn bydd y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn gwneud argymhellion i Weinidogion DEFRA am ddefnyddio cypermethrin i'r dyfodol.

**Nick Bourne:** Pa gyfyngiadau a osodir ar adeiladu'r biblinell nwy naturiol hylifol (LNG) trwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? (WAQ49635) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yr oedd yn ofynnol i'r Grid Cenedlaethol ddarparu asesiad o'r effaith amgylcheddol cyn cynnal ymgynghoriad statudol, cyn i ganiatâd gael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan reoliadau piblinellau 1999. Gosodwyd amodau llym yn y caniatâd ynglŷn ag adeiladu yn y parc cenedlaethol.

Bydd y gwaith adeiladu ac adfer yn cael ei oruchwylio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd y Grid Cenedlaethol yn cael cyngor a bydd awdurdod y parc yn adrodd i'r Grid Cenedlaethol am unrhyw weithgaredd adeiladu a allai achosi difrod neu sydd y tu allan i delerau'r dulliau gweithio y cytunwyd arnynt. Bydd gofyn i'r Grid Cenedlaethol atal gwaith o'r fath nes bydd y sefyllfa wedi cael ei datrys yn unol â'r dulliau y cytunwyd arnynt a bod hynny wedi cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan awdurdod y parc.

Bydd cynllun rheolaeth adfer yn cael ei gymeradwyo yn ysgrifenedig gan awdurdod y parc a bydd yn cynnwys rhaglen i fonitro ac ôl-ofalu am yr ardaloedd fydd wedi cael eu hadfer. Pe bai'r monitro neu'r ôl-ofal yn dangos bod angen camau cywirol, bydd cynigion ynglŷn â'r mesurau yr ymgymerir â hwy yn cael eu cyflwyno i awdurdod y parc i gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd unrhyw gamau cywirol yn cael eu gweithredu gan y Grid Cenedlaethol ar adeg y cytunir arni gydag awdurdod y parc. Bydd yr ôl-ofal yn para 10 mlynedd, neu gyfnodau hwy neu fyrrach y bydd awdurdod y parc wedi cytuno iddynt yn ysgrifenedig.

**Nick Bourne:** Pa ymdrechion a wneir i achosi cyn lleied o ddifrod amgylcheddol â phosibl yn sgil adeiladu'r biblinell nwy naturiol hylifol (LNG)? (WAQ49636) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

**Andrew Davies:** Yr oedd yn ofynnol i'r Grid Cenedlaethol ddarparu asesiad o'r effaith amgylcheddol cyn cynnal ymgynghoriad statudol, cyn i ganiatâd gael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan reoliadau piblinellau 1999.

Mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i leihau'r difrod i'r amgylchedd yn sgil adeiladu'r biblinell i'r eithaf. Mae mesurau lliniaru yn cael eu cymryd i sicrhau bod y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol. Bydd y cyfnod o amser yn amrywio yn ôl y math o dir dan sylw. Gwnaed ymdrech

sylweddol i osgoi mynd drwy goetiroedd. Lle nad oes dichon gwneud hynny, pennwyd llwybr y biblinell i leihau'r angen i glirio coed aeddfed ac i ddefnyddio bylchau fel traciau neu lwybrau. Lle na ellir osgoi clirio coed, bydd o leiaf bedair coeden yn cael eu hailblannu am bob un a dynnir.

Wrth gyhoeddi caniatâd ôl-atgyfnerthu Felindre i Tirley ar 7 Chwefror, dywedodd y Gweinidog Ynni, yr Arglwydd Truscott, mai effaith bosibl y biblinell ar barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog fu flaenaf yn ei feddwl. Mae meini prawf asesu trylwyr wedi galluogi'r Grid Cenedlaethol i ganfod llwybr sy'n osgoi safle treftadaeth byd Blaenafon ac yn haneru hyd y biblinell drwy barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio maglau yng Nghymru? (WAQ49639)

**Carwyn Jones:** Mae'r arfer gorau wrth ddefnyddio maglau yn cael ei egluro yn y cod ymarfer ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod a chwningod. Nid yw hwn yn god statudol, ond mae'n manylu ar y cyfyngiadau cyfreithiol yn y maes hwn. Mae'r cod wedi'i seilio i raddau helaeth ar waith a wnaed yn 2005 gan y gweithgor maglau annibynnol. Mae copïau o'r llyfr ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ann Jones:** Pa bwerau sy'n bodoli i gyfyngu defnyddio maglau yng Nghymru? (WAQ49640)

**Carwyn Jones:** Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mae'n drosedd gosod unrhyw drap neu fagl gyda'r bwriad o un ai anafu neu ladd unrhyw anifail gwyllt sydd wedi'i gynnwys yn atodlen 6 at y Ddeddf. Ni chaniateir maglu rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod oni bai fod y person wedi cael caniatâd drwy drwydded benodol dan adran 16 o'r Ddeddf.

**Ann Jones:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gyflwyno mesurau i wahardd neu gyfyngu ymhellach ar y defnydd o faglau yng Nghymru? (WAQ49641)

**Carwyn Jones:** Bwriedir adolygu'r cod ymarfer erbyn diwedd 2008. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi wedyn i fesurau ychwanegol, yn cynnwys rhoi statws cyfreithiol uwch i'r cod.

**Brynle Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) ynghylch cyflymder negodi cytundebau mynediad gwirfoddol er mwyn gwella'r mynediad at ddyfrffyrdd mewndirol yng Nghymru? (WAQ49665)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn cwrdd â chadeirydd a phrif weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd a chyfarwyddwr Asiantaeth Amgylchedd Cymru bob chwe mis i drafod materion strategol, yn cynnwys materion dŵr. Mae fy swyddogion hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â datblygu strategaeth newydd i Gymru parthed mynediad adloniadol at ddyfroedd arfordirol a mewndirol. Mae'r strategaeth i fod i gael ei chwblhau yn yr hydref ac, ynghyd â'r gwaith peilot y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei gynllunio o ran mynediad at ddŵr eleni, byddwn yn disgwyl gweld rhagor o gytundebau mynediad gwirfoddol yn cael eu sefydlu o ganlyniad.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am alluogi prosiectau meicro-gynhyrchu mewn ardaloedd cadwraeth? (WAQ49675)

**Carwyn Jones:** Gallai gosod cyfarpar meicro-gynhyrchu domestig fod yn ddatblygu a ganiateir, a byddai modd felly i'r cyfarpar gael ei osod heb fod angen caniatâd cynllunio penodol. Mewn ardaloedd sensitif fel parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, ardaloedd cadwraeth a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn fwy cyfyngedig a gallai fod

angen caniatâd cynllunio penodol. Bwriadaf ymgynghori ynghylch cyflwyno hawliau datblygu pwrpasol a ganiateir ar gyfer gosod cyfarpar meicro-gynhyrchu domestig ar y cyfle cyntaf. Bydd yr ymgynghoriad yn gwahodd barn pa un a ddylai'r hawliau datblygu hyn a ganiateir fod yn gymwys mewn ardaloedd sensitif.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Lisa Francis:** Pa wasanaethau sydd ar gael yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n dioddef o anhwylderau bwyta ac sy'n byw gartref, yn hytrach na bod mewn ysbyty neu ar ôl iddynt ddychwelyd oddi yno? (WAQ49459) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Lisa Francis:** Pa gyfleusterau sydd ar gael i ddarparu help i bobl ifanc dan 21 oed yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sy'n dioddef o anhwylderau bwyta? (WAQ49460) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae amryw o wasanaethau, o'r gofal sylfaenol a ddarperir gan feddygon teulu i'r gwasanaethau hynny a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol lleol a'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed sy'n darparu cymorth seiciatrig arbenigol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn dibynnu ar ddifrifoldeb y cyflwr.

Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth gartref i gleifion sy'n dioddef anhwylder bwyta fel rhan o'r tîm generig iechyd meddwl cymunedol, yn oedolion a glasoed. Os ydynt yn dal i ddirywio gallant gael eu cyfeirio at Gomisiwn Iechyd Cymru i gael triniaeth arbenigol ar gyfer anhwylder bwyta.

Mae'r comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r ymddiriedolaethau ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion amgen yn lle triniaeth cleifion mewnol—pethau fel timau allgymorth arbenigol a chyfleusterau gofal dydd i gefnogi mwy o gleifion gartref, rheoli'r galw a sicrhau mai dim ond y cleifion hynny y mae angen gwasanaethau trydyddol i gleifion mewnol arnynt sy'n gorfod teithio i ganolfannau o'r fath.

Mae'r comisiwn yn adolygu'r galw am welyau i gleifion mewnol yn y dyfodol yng ngoleuni gostyngiad cyson yn nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn a chynlluniau i ddatblygu gwasanaethau cymunedol cryfach. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn dylanwadu ar y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta yn y dyfodol.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd yn bwriadu dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau cleifion mewnol CAMHS ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2007. Mae'r cynigion yn cynnwys ateb dros dro mewn adeiladau wedi'u huwchraddio yn Nglanrhyd, a fydd ar gael yng ngwanwyn 2008, tra bydd cyfleuster pwrpasol parhaol yn cael ei godi ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw faterion a godwyd gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynglŷn â'r Consumer, Estate Agents and Redress Bill? (WAQ49550)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Ymgynghorwyd yn rheolaidd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r Consumer, Estate Agents and Redress Bill. Cefnogodd y Gweinidogion yr egwyddor o eiriolaeth fwy effeithiol, wedi'i seilio ar drefniadaeth symlach, i ddefnyddwyr, ond fe'i gwnaethant yn glir bod yn rhaid i'r Mesur gynrychioli anghenion neilltuol ac arbennig defnyddwyr yng Nghymru.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y lefel ymgynghori a fu rhwng yr Adran Masnach a Diwydiant a Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r Consumer, Estate Agents and Redress Bill? (WAQ49551)

**Sue Essex:** Ymgynghorodd yr Adran Masnach a Diwydiant yn rheolaidd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r Consumer, Estate Agents and Redress Bill, ar lefel Gweinidogion a swyddogion.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am allgau busnesau hunanarlwyo bach o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach? (WAQ49563)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi cyhoeddi datganiad cabinet heddiw yn rhoi gwybod am fy mwriad i gynnal ymgynghoriad ym mis Mawrth am rinweddau cynnwys neu beidio â chynnwys y sector busnes neilltuol hwn yn y cynllun rhyddhad ardrethi.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei hadran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49600) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49602) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49601) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49603) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49604) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru targed pob fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer diwedd Mawrth 2005-06, a'r sefyllfa wirioneddol ar gyfer pob eitem fel yr oedd ar 31 Mawrth 2006? (WAQ49050)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru pob targed fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer diwedd Mawrth 2006-07, a'r sefyllfa wirioneddol ar gyfer pob eitem fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2006? (WAQ49050)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Gweler yr atodiadau a gyhoeddwyd ar wahân i'r ffeil hon.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos sawl swydd nyrsio sydd ymhob un o'r ymddiriedolaethau iechyd yng Ngogledd Cymru, a sawl un o'r rhain sydd wedi'u rhewi ar hyn o bryd? (WAQ49326)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 13 Chwefror 2007.*

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog am y nifer o swyddi nyrsio mewn ymddiriedolaethau GIG. Lle mae gwybodaeth ar gael am staff mewn swydd a swyddi gwag, fe'i darperir yn y tablau isod. Ni fydd y ffigurau, o'u hadio at ei gilydd, yn rhoi cyfanswm 'swyddi' gan nad yw'r data swyddi gwag ond yn cynnwys y swyddi hynny sydd wedi bod yn wag am dri mis neu fwy. Caiff y data swyddi gwag ei gyhoeddi ar ffurf swyddi sy'n cyfateb i amser llawn.

**Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd (Ymddiriedolaethau GIG)**

| Staff mewn swydd | Nifer | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| 30 Medi 2003 | 39,262 | 26,384.8 |
| 30 Medi 2004 | 41,233 | 27,037.1 |
| 30 Medi 2005 | 42,683 | 27,722.7 |

| Swyddi Gwag | Nifer | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| 30 Medi 2003 | - | 444.7 |
| 30 Medi 2004 | - | 552.7 |
| 30 Medi 2005 | - | 259.8 |

**Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd—Ymddiriedolaethau Gogledd Cymru—30 Medi 2005**

| Staff mewn swydd | Nifer | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 3,190 | 1,717.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 4,280 | 2,166.9 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 1,803 | 1,464.6 |

| Swyddi Gwag (heb eu llenwi am 3 mis neu fwy) | Nifer | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | - | 3.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | - | 0.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | - | 0.0 |

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o ardaloedd Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, a pha rai, sy'n darparu gwasanaeth profedigaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi dioddef colli plentyn, neu sy'n wynebu colli plentyn yn y dyfodol agos, ac a wnaiff roi manylion ynghylch sut y mae'n golygu sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ledled Cymru? (WAQ49434)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 23 Chwefror 2007.*

**Brian Gibbons:** Mae pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau obstetreg yn darparu cyngor sensitif, cymorth a gwybodaeth i rieni plant marw-anedig ac ar ôl marwolaethau sydyn plant newydd-anedig. Fel arfer gwneir hyn gan staff bydwreigiaeth sydd wedi cael eu hyfforddi ar gyfer y rôl.

Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau GIG aciwt wedi cadarnhau eu bod hefyd yn darparu gwasanaethau profedigaeth i deuluoedd ar ôl colli plentyn, neu yn darparu gwasanaethau mewn unedau plant arbenigol hefyd i'r rhieni hynny sy'n gorfod dod i delerau ag afiechyd marwol eu plentyn.

Mae'r lefel a'r ystod o wasanaethau profedigaeth arbenigol i rieni yn amrywio. Mewn rhai achosion caiff y rôl hon ei chyflawni gan staff nyrsio pediatrig neu, weithiau, gan swyddog profedigaeth yr ysbyty.

Gan fod cymorth ysbytai i rieni mewn profedigaeth yn gyfyngedig fel arfer i'r cyfnodau yn union cyn ac ar ôl marwolaeth, mae'r ymddiriedolaethau hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arbenigo ym maes profedigaeth, megis Cruse, y Child Bereavement Trust a SANDS, y gymdeithas dros fabanod marw-anedig a phlant sy'n marw'n newydd-anedig, sy'n darparu cyhoeddiadau arbenigol i rieni yn ogystal â chymorth dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau yng Nghymru hefyd erbyn hyn yn cynnal gwasanaeth coffa blynyddol i rieni sydd wedi colli plentyn o unrhyw oedran.

Mae pob ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau cymorth mewn profedigaeth a chafodd copi o ddogfen ganllaw'r Adran Iechyd, 'When a Patient Dies—Advice on Developing Bereavement Services in the NHS', ei roi i gyd-drefnwyr profedigaeth yr ymddiriedolaethau yn 2006 i gynorthwyo gyda hyn. Rhoddir cymorth ac arweiniad hefyd i'r swyddogion arwain ym maes profedigaeth drwy ein gweithdai blynyddol ar faterion yn ymwneud â marwolaeth.

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei bolisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49444)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi cyhoeddi ac yr ydym yn gweithredu ein strategaethau ('Cynllun Oes' a 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol') i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Mae 'Cynllun Oes' yn nodi ein gweledigaeth o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r gorau yn y byd yn y 10 mlynedd nesaf. Mae 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' yn nodi ein gweledigaeth i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Rhaid i unrhyw newid gael ei fesur yn erbyn yr uchelgais o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, diogel, gyda'r gorau yn y byd i'r holl drigolion erbyn 2015. Ar hyn o bryd mae Ymddiriedolaethau GIG Abertawe i fod i gyrraedd fy nhargedau mynediad erbyn 31 Mawrth 2007.

**Christine Chapman:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru? (WAQ49453)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Cafodd 'Cynllun Oes', strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ei gyhoeddi ym mis Mai 2005 ac mae'n amlinellu gweledigaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel am y 10 mlynedd nesaf. Mae'n nodi dull gweithredu i'r rhaglen sydd wedi'i seilio ar fframweithiau tair blynedd.

Bydd datblygu canllawiau comisiynu newydd, a fframwaith i wasanaethau cymunedol—sydd ill dau i gael eu cyhoeddi'n fuan—yn rhoi ffocws i'r gweithredu sy'n ofynnol ar lefel leol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch canllawiau diwygiedig a rheoliadau ar gyfer y cylch nesaf o strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn 2008. Bydd y strategaethau hyn yn ymdrin, ymysg pethau eraill, ag anghydraddoldebau iechyd.

Ar ddiwedd 2008 byddwn yn asesu faint o gynnydd yr ydym wedi ei wneud yn gwella iechyd Cymru ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, gyda golwg ar gyhoeddi strategaeth anghydraddoldebau iechyd ddiwygiedig yn 2009.

Yr ydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn eu gwraidd drwy weithredu sy'n cael ei dargedu at anfantais gymdeithasol ac economaidd. Ymysg y rhaglenni iechyd penodol dan

faner Her Iechyd Cymru mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd, grantiau hyfforddiant tegwch ac eiriolaeth, y cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd, cwmnïau bwyd cydweithredol ac Yn Awyddus i Weithio.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal yn ddiweddar ynghylch sefydlu ysgol feddygol annibynnol yn Abertawe? (WAQ49464)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau am ysgol feddygol annibynnol i Abertawe. Yr wyf wedi cynnal trafodaethau gyda'r swyddogion am y newidiadau mawr sydd ar y gweill ar draws y DU o ran y ddarpariaeth addysg feddygol a deintyddol cyn cofrestru ac, yn erbyn y cefndir hwnnw, yr wyf wedi penderfynu comisiynu adolygiad annibynnol o ddyfodol addysg o'r fath yng Nghymru.

Mae'r comisiwn yn adolygu'r galw am welyau i gleifion mewnol yn y dyfodol yng ngoleuni gostyngiad cyson yn nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn a chynlluniau i ddatblygu gwasanaethau cymunedol cryfach. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn dylanwadu ar y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta yn y dyfodol.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd yn bwriadu dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau cleifion mewnol CAMHS ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2007. Mae'r cynigion yn cynnwys ateb dros dro mewn adeiladau wedi'u huwchraddio yn Nglanrhyd, a fydd ar gael yng ngwanwyn 2008, tra bydd cyfleuster pwrpasol parhaol yn cael ei godi ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan ar ba ddyddiad y mae'n disgwyl y bydd triniaeth brachytherapi'n dechrau yn Ysbyty Felindre? (WAQ49519)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd Comisiwn Iechyd Cymru'n ariannu triniaeth brachytherapi yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cleifion o Gymru cyn i driniaeth ddod ar gael yn Felindre? (WAQ49520)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 27 Chwefror 2007.*

**Brian Gibbons:** Nodir safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran darparu brachytherapi dos isel i drin canser y brostad nad yw wedi ymledu yn fy natganiad Cabinet ar 13 Chwefror. Mae i'w weld ar http://assembly/cabinet/Content/statements/2007/13.2.07 brachytherapy.rtf

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau canser y fron yng Ngogledd Cymru? (WAQ49544)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau canser y fron yn Ysbyty Glan Clwyd? (WAQ49542)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaethau canser y fron yn cael eu cynnig ym mhob un o'r tri phrif ysbyty ar draws y Gogledd. Mae pob un yn gweithio i gyrraedd y gofynion a nodwyd yn safonau canser 2009.

Mae gan bob ymddiriedolaeth ymgynghorwyr sydd wedi'u henwi, nyrsys canser y fron arbenigol, radiolegwyr penodol, patholegwyr ac oncolegwyr i gynnal y gwasanaeth ac i fynychu cyfarfodydd gofynnol y tîm amlddisgyblaethol lleol. Mae'r timau'n cwrdd yn wythnosol i drafod triniaeth ofynnol pob claf sydd wedi cael diagnosis.

Mae pob ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth llawfeddygol ac mae pob un erbyn hyn yn darparu datblygiad clinigol biopsi nodau sentinel. Nid oes llawdriniaeth adluniol yn cael ei darparu yn y Gogledd ar hyn o bryd, ar wahân i rywfaint o lawdriniaeth adluniol sylfaenol a wneir yn ysbyty Llandudno rhwng llawfeddyg o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru a llawfeddyg plastig sy'n ymweld. Darperir llawdriniaeth adluniol eilaidd yn Lloegr drwy gomisiynu arbenigol.

Mae Bron Brawf Cymru'n darparu gwasanaeth sgrinio'r fron yn y Gogledd ac mae ganddo ganolfannau yn ysbytai Llandudno a Wrecsam Maelor.

Mae gwasanaethau radiotherapi sy'n rhan o wasanaethau canser y fron yn cael eu darparu'n ganolog yng nghanolfan ganser gogledd Cymru yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych. Mae gwasanaethau oncoleg/cemotherapi yn cael eu darparu'n ganolog hefyd ond mae rhai triniaethau ar gael yn lleol yn y tair canolfan oncoleg ar safle pob un o'r prif ysbytai. Gall trigolion o'r Gogledd-ddwyrain hefyd fynd at ddarparwyr yn Lloegr i gael y gwasanaeth hwn.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog a'i swyddogion wedi'u cael ynghylch ailgyflunio'r gwasanaethau canser y fron a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd? (WAQ49543)

**Brian Gibbons:** Mae'r GIG yn y Gogledd wedi nodi ei weledigaeth strategol i wasanaethau iechyd yn y rhanbarth fel y'i disgrifiwyd yng 'Nghynllun Gogledd Cymru'. Ymgynghorwyd yn llawn â'r cyhoedd am y cynllun hwn yn 2006.

O ganlyniad i'r ymgynghori hwn mae comisiynwyr y BILlau yn Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn wedi cytuno bod angen gwneud gwaith pellach i ystyried canlyniadau clinigol, gweithredol ac ariannol datblygu ysbyty Llandudno fel canolfan llawdriniaeth y fron i'r pedair sir. Mae arbenigwyr annibynnol i fod i gynnal adolygiad i hyn dros y misoedd nesaf. Gallai canlyniad yr adolygiad hwn ddylanwadu ar y model gwasanaeth rhwng Llandudno, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd.

Y GIG yn y Gogledd sy'n rheoli'r broses hon.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd am y fforwm cynllunio arfaethedig a sefydlwyd i edrych ar ddyfodol darpariaeth gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro? (WAQ49545)

**Brian Gibbons:** Nodir isod gadeirydd ac aelodaeth y fforwm cynllunio a sefydlwyd i edrych ar y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i'r dyfodol:

**Cadeirydd:** Dr Bruce Ferguson.

Aelodaeth:
- y tair ymddiriedolaeth bresennol—cynrychiolaeth glinigol a rheolaethol;
- cynghorau iechyd cymuned Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro;
- cynrychiolwyr cleifion;
- y Swyddfa Ranbarthol;
- awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro;
- pwyllgorau cynghori meddygol a nyrsio rhanbarthol;
- cyrff ochr y staff;
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- aelodau eraill i gael eu cyfethol fel sy'n briodol (i gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Powys, cynghorau iechyd cymuned Sir Drefaldwyn, De Meirionnydd a Brycheiniog a Sir Faesyfed, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, darparwyr addysgol, ac arbenigwyr clinigol o fewn y rhanbarth a thu allan iddo);
- y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol;

- Comisiwn Iechyd Cymru;
- personél cynllunio gofodol Llywodraeth y Cynulliad.

Cytunir ar y pwrpas a'r cylch gorchwyl yn y cyfarfod cyntaf, ar 27 Chwefror 2007.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog warantu y bydd gwasanaethau iechyd Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlffordd yn cael eu cynnal ar eu lefel gyfredol neu'n cael eu gwella yn hytrach na'u hisraddio? (WAQ49546)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun y GIG i ailgyflunio gwasanaethau yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn cynnig opsiynau i newid y ddarpariaeth gwasanaethau yn yr ardal. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor lleol â phosibl a bod y ddarpariaeth gwasanaethau GIG yn unol â'r manylion yn 'Cynllun Oes'. Rhaid i unrhyw newid gael ei fesur yn erbyn yr uchelgais o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, saff, o safon fyd-eang i'r holl drigolion erbyn 2015.

Byddai unrhyw newidiadau i wasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn ddarostyngedig i ymgynghori â'r cyhoedd yn unol â'r canllawiau.

**Helen Mary Jones:** Yn dilyn ei ddatganiad am ddarparu gwasanaeth brachytherapi dogn isel yng Nghymru ar gyfer trin canser y brostad cyfyngedig, a wnaiff y Gweinidog esbonio a fydd pob claf canser yn gallu hawlio costau teithio am driniaeth ganser, neu a ydynt ond yn gymwys i gael teithio mewn ambiwlans? (WAQ49549)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddwyd cylchlythyr iechyd Cymru WHC (2007) 005 ar 12 Chwefror 2007 i hysbysu ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol o'r meini prawf diwygiedig er mwyn penderfynu a oes gan glaf angen meddygol am gludiant rhad ac am ddim os nad yw'n achos brys. Dim ond i siwrneiau cleifion yng Nghymru a siwrneiau cyntaf i ysbytai yn Lloegr y mae'r meini prawf diwygiedig yn gymwys.

Mae'r newidiadau'n golygu bod cleifion canser yn cael eu diffinio bellach fel cleifion sydd ag angen meddygol am gludiant ambiwlans a byddant bellach yn gallu manteisio yn rhad ac am ddim ar wasanaethau cludiant i gleifion lle nad ydynt yn achos brys.

Dim ond dan y cynllun costau teithio i'r ysbyty y caiff costau teithio eu had-dalu. Sefydlwyd y cynllun hwn i ddarparu cymorth ariannol i gleifion ar rai budd-daliadau sy'n destun prawf moddion nad oes ganddynt angen meddygol am gludiant ambiwlans ond nad ydynt yn gallu talu cost teithio i'r ysbyty.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod cyfleusterau profi ar gyfer canser y fron HER2 cadarnhaol cyfnod cynnar a metastatig ar gael ledled Cymru? (WAQ49554)

**Brian Gibbons:** Gallaf gadarnhau bod profion HER2 ar gael ledled Cymru.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw oedi o ran sefydlu ward derbyniadau iechyd meddwl glasoed brys ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ49556)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran sefydlu ward anhwylder bwyta ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ49557)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa fyrddau iechyd lleol sydd heb sefydlu timoedd therapi dwys cymunedol i gefnogi pobl ifanc dan 18 oed sydd ag anhwylder bwyta, ac a wnaiff ef ddatgan sut y mae'n sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael ledled Cymru? (WAQ49558)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru, yn ei rôl fel prif gomisiynydd y gwasanaeth hwn, yn bwriadu dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai 2007 am gynlluniau i ddatblygu gwasanaeth cleifion mewnol CAMHS ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae’r cynigion yn cynnwys ateb dros dro mewn adeiladau wedi’u huwchraddio yn Nglanrhyd, a fydd ar gael yng ngwanwyn 2008, tra bydd cyfleuster pwrpasol parhaol yn cael ei godi ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010. Bydd yr ateb dros dro a’r ateb parhaol yn cynnwys darpariaeth i gleifion y mae angen gwasanaethau dibyniaeth uchel arnynt a chleifion y mae angen eu derbyn mewn argyfwng.

Mae’r comisiwn hefyd yn gweithio’n agos gyda’r ymddiriedolaethau ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion ar gyfer cyfleusterau arbenigol a mwy dwys i ategu’r driniaeth cleifion mewnol. Ymysg yr enghreifftiau mae timau allgymorth arbenigol a chyfleusterau gofal dydd sy’n golygu bod modd rheoli mwy o bobl o’u cartrefi, rheoli’r galw a sicrhau mai dim ond y cleifion hynny y mae angen gwasanaethau cleifion mewnol trydyddol arnynt ac y mae gofyn iddynt deithio i ganolfannau o’r fath sy’n cael eu derbyn.

Mae timau therapi dwys cymunedol, sy’n un elfen yn yr ystod lawn o CAMHS arbenigol mwy dwys, yn delio â phlant a phobl ifanc sydd ag ystod o anhwylderau meddyliol yn cynnwys anhwylderau bwyta. Maent yn chwarae rhan enerig felly mewn sbectrwm gofal cynhwysfawr ac nid ydynt wedi’u bwriadu i ddelio ag anhwylderau unigol. Mae dau dîm o’r fath yn gweithredu ar hyn o bryd yn ardaloedd BILlau Caerdydd, y Fro, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Yr ardaloedd nad oes ganddynt dimau therapi dwys cymunedol ar hyn o bryd yw canolbarth a gorllewin Cymru, gogledd Cymru a Gwent.

Y byrddau iechyd lleol sy’n gyfrifol am gomisiynu darpariaeth gwasanaethau i gleifion sy’n dioddef anhwylderau bwyta gartref fel rhan o’u gwaith yn comisiynu timau iechyd meddwl cymunedol arbenigol ar gyfer oedolion a phlant a’r glasoed.

**Nick Bourne:** Faint o arian a wariwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru yn 2006 ar gostau teithio, gwestai, llogi ystafelloedd a chostau arlwyo, ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o'r costau hyn? (WAQ49565)

**Brian Gibbons:** Mae’r comisiwn yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i Gymru gyfan. Mae’n comisiynu gwasanaethau gan ymddiriedolaethau GIG ar draws Cymru a chan ymddiriedolaethau GIG a darparwyr sector annibynnol ledled Lloegr. Mae gofyn i staff y comisiwn deithio llawer yn eu gwaith. Mae’r tabl isod yn dangos y gwariant yn 2006.

**Gwariant 2006 ar gostau teithio, gwesteiau, llogi ystafelloedd a thaliadau arlwyo**

| | |
|---|---|
| Teithio (staff a secondeion y comisiwn) | £33,065.65 |
| Teithio (cynghorwyr ac ymgynghorwyr) | £467.25 |
| Gwesteiau (yn cynnwys cynhaliaeth lle nad oedd prydau’n cael eu darparu gan y gwesty) | £13,769.57 |
| Llogi ceir | £9,990.91 |
| Llogi ystafelloedd (ar gyfer cyfarfodydd ac adolygiadau allanol, yn cynnwys taliadau arlwyo) | £9,862.04 |
| Arlwyo yn swyddfeydd y comisiwn gydag ymwelwyr allanol | £1,146.66 |
| | £68,302.08 |

**Nick Bourne:** A yw Comisiwn Iechyd Cymru wedi cyflogi gwasanaethau cwmni ateb ffôn yn ddiweddar ac, os ydyw, ar ba gost? (WAQ49566)

**Brian Gibbons:** Nid yw Comisiwn Iechyd Cymru wedi cyflogi gwasanaethau cwmni ateb ffôn yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyfleuster ffôn ateb newydd ar gyfer holl deleffonau Comisiwn Iechyd Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau ysbyty yng Ngheredigion? (WAQ49584)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau ysbyty yn Sir Benfro? (WAQ49586)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau ysbyty yn Sir Gaerfyrddin? (WAQ49587)

**Brian Gibbons:** Bu cynnydd o fwy na 25 y cant yn y cyllid gofal iechyd yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf, a chynnydd staffio ers sefydlu'r Cynulliad o 15 y cant o ran staff anfeddygol a 27 y cant o ran staff meddygol a deintyddol. Mae sefydliadau GIG yn yr ardal hon wedi bod yn datblygu cynigion er mis Gorffennaf 2005 gogyfer â dyfodol gwasanaethau iechyd lleol, yn enwedig ei phrif ysbytai.

Yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, mae bwrdd cynllunio yn cael ei sefydlu i symud cynigion newydd ymlaen wedi'u seilio ar gadw'r tri ysbyty cyffredinol presennol yng Nglangwili, Llwyn Helyg a Bronglais, gyda'r tri ysbyty yn cael eu cysylltu'n agos i weithio mewn rhwydwaith. Mae neges gref wedi dod o'r ymgynghoriad bod gormod o gyrff iechyd yn gwasanaethu siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion ac mae pob un ond un o'r cyrff lleol wedi cytuno bod angen un ymddiriedolaeth ar gyfer de-orllewin Cymru i ddod â'r ateb tri ysbyty arfaethedig ymlaen. Awgrymir bwrdd prosiect, yn cael ei gadeirio a'i gyfarwyddo'n annibynnol, i fynd â'r cynnig hwn ymhellach.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau ysbyty ym Mhowys? (WAQ49585)

**Brian Gibbons:** Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys gyfrifoldeb i wella iechyd a lles pobl Powys. Yn unol â chyfarwyddyd strategol y Cynulliad yn 'Cynllun Oes', mae BILl Powys wedi ymgynghori'n ddiweddar am ei gynigion gogyfer â chyfluniad bras y gwasanaethau i'r dyfodol. Gwnaeth hyn fel rhan o broses ymgynghori strategol 'Gwneud Mwy, Gwneud yn Well'. Erbyn hyn mae'r BILl wedi nodi y bydd yn dod â chynigion mwy penodol ynglŷn â gweithredu ei strategaeth gerbron i ymgynghori yn eu cylch.

Cytunwyd na ddylid bwrw iddi i ailgyflunio gwasanaethau ysbyty heb ddarpariaeth gymunedol sydd wedi cael ei chynllunio'n ddigonol, a bod rhaid ymgynghori â'r cyhoedd cyn i unrhyw ailgyflunio ddigwydd.

Mae dogfen fframwaith ddrafft am wasanaethau cymunedol yn cael ei pharatoi a bydd angen i BILl Powys ystyried y fframwaith hwn wrth lunio ei gynigion ar gyfer datblygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol.

**Nick Bourne:** O ba ddyddiad y cafodd cleifion a oedd dan driniaeth brachytherapi driniaeth brachytherapi yn Lloegr a oedd wedi'i ariannu o Gymru? (WAQ49588)

**Brian Gibbons:** Mae rhai cleifion o Gymru wedi cael y driniaeth hon mewn canolfannau arbenigol yn Lloegr er 2003-04.

**Nick Bourne:** O ba ddyddiad y bydd triniaeth brachytherapi yn dechrau yn Felindre, yng Nghaerdydd? (WAQ49589)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi gofyn am i'r gwasanaeth gael ei sefydlu cyn gyflymed â phosibl. Unwaith y bydd y trefniadau cychwyn wedi cael eu sefydlu bydd y gwasanaeth ar gael cyn diwedd yr haf.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n sicrhau bod holl israddedigion nyrsio a fydd yn graddio eleni yn gallu cael mynediad at raglen 6 mis dan hyfforddiant, ac a wnaiff ef ailadrodd unrhyw sylwadau y mae wedi eu derbyn ynglŷn â'r mater hwn? (WAQ49591)

**Brian Gibbons:** Megis yn y blynyddoedd cynt, bydd y pum ysgol nyrsio yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda'r sector iechyd i alluogi staff sydd newydd gymhwyso i ymgymryd â chyflogaeth. Mater i'r corff cyflogi—yr ymddiriedolaeth GIG er enghraifft—yw sefydlu trefniadau preceptoriaeth i'r staff y mae wedi eu cyflogi fel rhan o'r broses sefydlu. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi sefydlu canllawiau o ran preceptoriaeth staff sydd newydd gymhwyso, y dylai cyflogwyr eu dilyn. Fe'u cyhoeddwyd dan gylchlythyr 21/2006 NMC, canllawiau preceptoriaeth. Dywed y cylchlythyr hwn bod yr NMC yn argymell yn gryf y dylai'r rhai sy'n cofrestru'n newydd gael cyfnod ffurfiol o breceptoriaeth o oddeutu pedwar mis. Gall ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol ddewis gweithredu'r canllawiau hyn fel sy'n gweddu i gyd-destun eu sefydliad arbennig hwy.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio gwahanol ffurfiadau, h.y. powdwr a hylif, o Beta Interfferon fel AVONEX a'u heffeithiolrwydd yn rheoli sglerosis ymledol? (WAQ49592)

**Brian Gibbons:** Yr oedd Avonex ar gael yn wreiddiol ar ffurfiad Bioset, sef powdr sych i'w ail-ansoddi. Y ffurfiad hwn o Avonex a ddefnyddiwyd yn nhreialon interfferon beta 1a mewn sglerosis ymledol.

Y chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw â hydoddiant Avonex yw'r ffurfiad mwy newydd ac fe'i cymeradwywyd i gael ei ddefnyddio yn 2003. Gan mai'r un yw'r ffurfiad fferyllol newydd hwn yn ei hanfod â'r hen un (wrth iddo gael ei weinyddu), y cyfan sy'n ofynnol yw iddo gael ei awdurdodi i ddangos ei fod yn darparu'r un cyffur, ar yr un dos, a'i fod ar gael i'w amsugno ar yr un gyfradd drwy'r un gwaglyn mewngyhyrol â'r hen ffurfiad.

Yn ei hanfod, mae'r cynnyrch newydd ar gael ar ffurf sy'n barod i'w defnyddio, sy'n fwy hwylus i'r claf. Er mwyn i hwn gael ei gymeradwyo dim ond ansawdd a chyfanrwydd y moleciwl y mae'n rhaid i'r cwmni eu dangos. Byddai'r wybodaeth hon wedi bod yn rhan o ffeil reoleiddiol y chwistrell sydd wedi'i llenwi ymlaen llaw.

Mae'r ffurfiad Avonex Bioset hŷn (powdr i'r ail-ansoddi) a'r chwistrell Avonex fwy newydd yn cynnwys hydoddiant ill dau yn dal i fod ar gael i'w defnyddio.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydlynu gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ49596)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at atodiad 3 at Bapur HSS(2)-03-07(td4) y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a ystyriwyd gan y pwyllgor ar 7 Chwefror. Mae hwn yn rhoi diweddariad llawn am y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei adran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49610) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49612) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49611) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49613) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49614) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog restru pob ardal BILl lle mai targed y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid 2005-06 yw bod pob claf yn cael mynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol o fewn 24 awr? (WAQ49644)

**Brian Gibbons:** Mae'r targed yn gymwys i bob un o'r 22 bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog esbonio'r sefyllfa ynghylch brachytherapi ar gyfer cleifion yn y Gogledd a) rhwng nawr a mis Ebrill a b) ar ôl mis Ebrill, y naill a'r llall, pan gynigir brachytherapi yn Lloegr? (WAQ49645)

**Brian Gibbons:** Gallaf gadarnhau y bydd cleifion sydd â chanser y brostad nad yw wedi ymledu yn y Gogledd sy'n bodloni'r meini prawf clinigol am bracytherapi dos isel yn gallu cael y driniaeth hon mewn canolfannau yn Lloegr o hyn ymlaen hyd nes y sefydlir y gwasanaeth i Gymru gyfan yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ddiweddarach eleni. Wedi hynny, gellir cyfeirio cleifion i gael triniaeth un ai yn Felindre neu gan ddarparwr arall.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pa gostau trafnidiaeth, ac o dan ba amgylchiadau, a delir i gleifion am driniaeth brachytherapi? (WAQ49646)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddwyd cylchlythyr iechyd Cymru WHC (2007) 005 ar 12 Chwefror 2007 i hysbysu ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol o'r meini prawf diwygiedig er mwyn penderfynu a oes gan glaf angen meddygol am gludiant rhad ac am ddim os nad yw'n achos brys. Dim ond i siwrneiau cleifion yng Nghymru a siwrneiau cyntaf i ysbytai yn Lloegr y mae'r meini prawf diwygiedig yn gymwys.

Mae'r newidiadau'n golygu bod cleifion canser yn cael eu diffinio bellach fel cleifion sydd ag angen meddygol am gludiant ambiwlans a byddant bellach yn gallu manteisio yn rhad ac am ddim ar wasanaethau cludiant i gleifion lle nad ydynt yn achos brys.

Dim ond dan y cynllun costau teithio i'r ysbyty y caiff costau teithio eu had-dalu. Sefydlwyd y cynllun hwn i ddarparu cymorth ariannol i gleifion ar rai budd-daliadau sy'n destun prawf moddion nad oes ganddynt angen meddygol am gludiant ambiwlans ond nad ydynt yn gallu talu cost teithio i'r ysbyty.

**Jenny Randerson:** Beth oedd y dyddiad pan hysbysodd y Gweinidog Gomisiwn Iechyd Cymru o gynnwys ei ddatganiad ysgrifenedig ar brachytherapi? (WAQ49647)

**Brian Gibbons:** Yr oedd fy swyddogion yng Nghomisiwn Iechyd Cymru yn rhan o'r trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a arweiniodd at fy mhenderfyniad i sefydlu gwasanaeth brachytherapi dos isel yng Nghymru, wedi'i leoli yn Felindre. Diben y datganiad Cabinet ysgrifenedig oedd cyfleu'r penderfyniad hwn i Aelodau Cynulliad.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y meddygon ymgynghorol - clefydau anadlol yng Nghymru sy'n ymdrin â chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint? (WAQ49652)

**Brian Gibbons:** Ar 30 Medi 2005, y dyddiad diweddaraf y mae gwybodaeth ar gael amdano, yr oedd 25 (23.1 cyfwerth ag amser llawn) o ymgynghorwyr mewn swydd sy'n arbenigo'n bennaf mewn meddygaeth anadlol. Nid oes gwybodaeth yn cael ei dal yn ganolog am faint o'r rhain sy'n arbenigo ar glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth ffisiotherapi sydd ar gael ar gyfer clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint? (WAQ49653)

**Brian Gibbons:** Mae ffisiotherapyddion yn gwneud cyfraniad hanfodol tuag at drin cyflyrau cronig a'u rheoli'n glinigol, gan gynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Maent yn cyfrannu tuag at reoli achosion unigol mewn ysbytai ac yn y gymuned, a hefyd at roi rhaglenni ailsefydlu ysgyfeiniol ar waith. Nid oes gwybodaeth yn cael ei dal yn ganolog am y nifer o ffisiotherapyddion sy'n ymwneud â rheoli clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o swyddi gwag i feddygon teulu sydd yng Nghymru? (WAQ49654)

**Brian Gibbons:** Nid oes data'n cael ei gasglu am nifer y swyddi gwag drwyddynt draw. Un ffynhonnell ddata am swyddi gwag i feddygon teulu yw arolwg 2006 o swyddi gwag mewn practisiau meddygon teulu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r data isod yn dangos y gyfradd swyddi gwag dri mis i ymarferwyr cyffredinol o bob math yng Nghymru ar 31 Mawrth 2006. Y swyddi gwag dros dri mis fel canran o'r swyddi gwaith dros dri mis ynghyd â'r staff mewn swydd yw'r ffigurau.

| | **2005** | **2006** |
|---|---|---|
| Cyfradd swyddi gwag ymarferwyr cyffredinol dros dri mis | 2.1% | 1.8% |
| Swyddi gwag ymarferwyr cyffredinol fesul 100,000 o gleifion | 1.3 | 1.1 |

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o swyddi gwag i feddygon ymgynghorol sydd yng Nghymru, fesul arbenigedd? (WAQ49655)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol fesul arbenigedd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Stats Cymru. Dyma ddolen gyswllt at y dudalen we briodol:
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1304.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth ffisiotherapi sydd ar gael ar gyfer clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint? (WAQ49656)

**Brian Gibbons:** Mae cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau o ran cyflyrau anadlol yng Nghymru yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, gan ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a

ddaeth i ben ar 12 Ionawr 2007. Mae ailsefydlu ysgyfeiniol yn cael ei gydnabod yn y gwaith hwn sydd ar y gweill fel elfen ofal bwysig i bobl sydd â chyflyrau anadlol cronig fel clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma cronig. Mae camau gweithredu allweddol yn cael eu datblygu i sicrhau bod comisiynwyr ar draws Cymru yn rhoi sylw i ailsefydlu ysgyfeiniol wrth iddynt weithredu'r cyfarwyddebau hyn.

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y nyrsys iechyd meddwl sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru? (WAQ49661)

**Brian Gibbons:** Mae'r nifer o nyrsys cyn cofrestru a fu'n dilyn hyfforddiant y gangen iechyd meddwl er 2003-04 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2003-04 | 509 |
| 2004-05 | 559 |
| 2005-06 | 547 |
| 2006-07 | 493 |

Mae'r nifer o nyrsys cyn cofrestru a fu'n dilyn hyfforddiant iechyd meddwl cymunedol er 2003-04 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2003-04 | 34 |
| 2004-05 | 17 |
| 2005-06 | 13 |
| 2006-07 | 20 |

Caiff y nifer o fyfyrwyr a gomisiynir ei seilio ar gynlluniau gweithlu sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y gwasanaeth ac a gyflwynir gan ymddiriedolaethau GIG Cymru. Yr ydym yn hyfforddi mwy o nyrsys iechyd cymunedol yn unol â 'Chynllun Oes' ac yn symud gwasanaethau i'r gymuned.

**Michael German:** A allai'r Gweinidog egluro a fydd y £2 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer hosbisau fis Rhagfyr diwethaf yn cael ei neilltuo ar gyfer cyllido hosbisau elusennol ai peidio ac a fydd hyn ar ben cyllid cyfredol y BILlau? (WAQ49662)

**Michael German:** Gyda golwg ar y £2 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer hosbisau fis Rhagfyr diwethaf a allai'r Gweinidog egluro beth fydd y broses dyrannu/ymgeisio ar gyfer yr arian hwn? (WAQ49663)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad gwasanaeth llinell sylfaen o wasanaethau gofal lliniarol i sefydlu'r angen am ofal lliniarol ar hyn o bryd ac i'r dyfodol a'r bylchau yn y ddarpariaeth a'r ffrydiau cyllido. Mae'r £2 filiwn y cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd yn cael ei ddarparu'n rheolaidd gan Lywodraeth y Cynulliad o 2007-08 ar gyfer gwasanaethau hosbis o ansawdd uchel. Fodd bynnag, bydd argymhellion yr adolygiad gwasanaeth llinell sylfaen hwn, sydd i fod i gyflwyno'i ganfyddiadau ddiwedd mis Ebrill, yn dylanwadu ar sut y caiff yr arian hwn ei ddyrannu.

Mae'r £2 filiwn yn cynrychioli arian refeniw rheolaidd i helpu i dalu costau rhedeg craidd yr hosbisau hynny sy'n darparu gofal lliniarol o ansawdd uchel, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cydnabyddedig cleifion. Ni ddylid cymryd bod hyn yn awgrymu y dylid lleihau'r ymdrechion gwirfoddol i godi arian i hosbisau, a dylai byrddau iechyd lleol barhau i weithio drwy'r rhwydweithiau canser rhanbarthol, gyda'r sector gwirfoddol, i sefydlu gwell trefniadau comisiynu, a'r rheini'n drefniadau cynaliadwy.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog egluro a fydd gofyn i fusnesau ddangos arwyddion dim smygu wrth wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus, ac a wnaiff egluro pwy fydd yn talu am hyn a sut y rhoddir gwybod i fusnesau am ofynion o'r fath? (WAQ49677)

**Brian Gibbons:** O 2 Ebrill, bydd gofyn i fannau cyhoeddus amgaeedig, ac amgaeedig i raddau sylweddol, yn cynnwys gweithleoedd, fod yn ddi-fwg ac arddangos arwyddion dim ysmygu wrth y fynedfa i'r eiddo neu gerllaw iddi. Y mis diwethaf anfonwyd pecyn yn cynnwys arwyddion dim ysmygu enghreifftiol at fusnesau ar draws Cymru. Yr oedd y pecyn hefyd yn cynnwys manylion am sut y gall busnesau gael yr arwyddion safonol sydd yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae canllawiau ac arwyddion i'w lawrlwytho ar gael hefyd ar y wefan www.gwaharddsmygucymru.co.uk. Mae sylw wedi cael ei dynnu at y wefan hon yn yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd am y ddeddfwriaeth newydd. Mae gan awdurdodau lleol swmp gyflenwadau o'r canllawiau a'r arwyddion perthnasol i'w dosbarthu i fusnesau yn eu hardal. Bydd cerdyn post atgoffa pellach am ofynion y ddeddfwriaeth yn cael ei anfon i fusnesau ganol mis Mawrth. Hefyd, ceir hysbysebion pellach yn y wasg fasnachol yn ystod mis Mawrth yn atgoffa busnesau am y gwaharddiad ac yn eu cyfeirio at y wefan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Nick Bourne:** Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49248)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yn dilyn eich cais am wybodaeth, gallaf gadarnhau bod fy adran wedi gwario £61,046.26 yn uniongyrchol ar gyhoeddusrwydd yn ystod 2006.

Mae'r swm hwn yn cynnwys £30,721.26 ar ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, £18,090 ar faterion tai, £11,000 ar gyhoeddusrwydd i linell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru gyfan, a £1,235 ar Wasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd adfywio trefol yng Nghymru? (WAQ49452) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae adfywio trefol yn chwarae rhan dyngedfennol yn gwireddu'r uchelgeisiau a nodwyd yn ein fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd, 'Cymru: Economi yn Ffynnu'. Mae gan amgylchedd trefol safonol, tai da a seilwaith cymdeithasol ac economaidd cadarn i gyd ran i'w chwarae yn creu cymunedau deniadol a chynaliadwy y mae pobl am fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'n partneriaid i greu cymunedau o'r fath: er enghraifft, yng Nghasnewydd drwy ein hymrwymiad i Newport Unlimited, yn y Rhyl, lle mae strategaeth symud ymlaen y Rhyl yn ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd drwy gymysgedd eang o weithgareddau adfywio trefol, yn Abertawe yn SA1 ac yng nghanol y ddinas, ac ar Lan y Dŵr yn Llanelli lle mae 100 erw i'r de o ganol tref Llanelli yn cael eu hadfywio.

Byddwn yn parhau i nodi blaenoriaethau drwy grwpiau cynllun gofodol Cymru ac, yng ngoleuni'r gwaith ar aneddiadau allweddol, byddwn yn cyfeirio cyllid i gefnogi prosiectau a all ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ymysg pobl hŷn yng Nghymru? (WAQ49455) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae mynd i'r afael â thlodi yn croesi ffiniau nad ydynt wedi cael eu datganoli ond un amcan allweddol yn ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yw datblygu a hyrwyddo polisïau i fynd i'r afael â thlodi. Mae Cysyllt-oed yng Nghymru, menter ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn ceisio cynyddu incwm pobl hŷn i'r eithaf a chael cymaint â phosibl i fanteisio ar fudd-daliadau. Mae'n cyflwyno dull un stop o ran y ffordd y bydd pobl hŷn yn cyrchu at wasanaethau cyhoeddus ac i ddechrau bydd yn canolbwyntio ar gynyddu incwm i'r eithaf a chael cymaint â phosibl o bobl hŷn i fanteisio ar fudd-daliadau. Bydd hyn yn help i fynd i'r afael â'r problemau incwm isel a thlodi sy'n effeithio ar rai pobl hŷn yng Nghymru.

Hyd yma mae wyth awdurdod lleol wedi dechrau gweithrediadau byw ac mae 12 pellach ar wahanol gamau o'r gwaith cynllunio gweithredu erbyn hyn. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio gyda nifer o gyrff partner a mudiadau gwirfoddol gyda'r nod o sefydlu swyddfeydd amgen. Bydd y swyddfeydd hyn yn cymryd ceisiadau DWP am fudd-daliadau a hawliau ac yn gwirio dogfennau ategol. Mae deunaw o gytundebau swyddfeydd amgen wedi cael eu sefydlu erbyn hyn ar hyd a lled Cymru, yn bennaf gyda Age Concern, ac mae sawl cytundeb arall posibl yn cael eu hystyried gydag wyth canolfan ychwanegol.

Mae'r fforwm partneriaeth cenedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru, y grŵp cynghori allweddol i Lywodraeth y Cynulliad ar heneiddio, yn edrych ar dlodi a phobl hŷn fel rhan o'i raglen waith a bydd yn cyflwyno ei gyngor inni ar ôl ei gyfarfod nesaf.

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49607) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog bolisi ar gyfer annog defnyddio trafnidiaeth rheilffordd yn ei hadran, gan roi enghreifftiau? (WAQ49606) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae gweision sifil yn adran y Gweinidog yn defnyddio trafnidiaeth rheilffordd, yn lle trafnidiaeth awyr, gan roi enghreifftiau? (WAQ49608) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo defnyddio Eurostar i deithio i Frwsel yn hytrach nag awyren, gan roi enghreifftiau? (WAQ49609) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49597, WAQ49638, WAQ49598 a WAQ49599.

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi undebau credyd yng Nghymru? (WAQ49593)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol ar y pwnc hwn, i gwestiwn ysgrifenedig WAQ49456, a atebwyd ar 21 Chwefror.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo arbedion ynni yn ei hadran, gan roi manylion a thargedau, a sut y mae hynny'n cael ei fonitro? (WAQ49605) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ49637.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyfleusterau ar gyfer pobl drwm eu clyw yn llysoedd ynadon Cymru? (WAQ49547)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad i bobl anabl dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Dan y ddeddfwriaeth hon mae'n ofynnol darparu dolen sail ar gyfer dyfeisiau cymorth clyw neu ddyfeisiau cymorth cyfathrebu megis cofnodwyr lleferydd-i-destun gan fod galw amdanynt yn debygol iawn.

Ym mis Ionawr 2005 sefydlais y rhaglen lleoliadau hygyrch i weithgor Cymru i hyrwyddo ymarfer da ymysg sefydliadau sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau. Mae'r grŵp wedi llunio canllawiau y gellir eu defnyddio fel arf i asesu'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl anabl ac i ddarparu gwasanaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol cyfredol a nodir yn Rhan M o'r rheoliadau adeiladu.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i grynhoi ymwneud Llywodraeth y Cynulliad â chynllun Sign Wales a'i safle mewn perthynas â'r cynllun hwnnw? (WAQ49548) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae cynrychiolwyr Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru a'r Deaf Studies Trust wedi bod mewn cysylltiad â'm swyddogion ar wahanol adegau tra oedd menter Sign Wales yn cael ei datblygu. Mae'r cynrychiolwyr hynny hefyd wedi darparu gwybodaeth i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a Jane Hutt, y Trefnydd, am eu cynnig i gyflenwi a chynnal a chadw fideoffonau i bob un yng Nghymru sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Cafwyd cyfarfod â'r swyddogion ar dri achlysur i drafod y cynnig. Mae Sign Wales hefyd wedi cyflwyno ei gynnig i nifer o sefydliadau eraill yn cynnwys y rheoleiddiwr telathrebu, Ofcom.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella cynhwysiant cymdeithasol a mynediad at wasanaethau cyhoeddus i'r dinasyddion hynny sy'n defnyddio'r iaith, ac i ddod yn gorff cyhoeddus sy'n esiampl oherwydd y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu'r opsiynau sydd ar gael a allai fod o help i wireddu'r ymrwymiadau hynny.

Mae cyfarfod rhwng Ofcom, BT, fy swyddogion i a Sign Wales yn cael ei gynllunio i egluro i ba raddau y gall neu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi cynnig Sign Wales, yn ariannol neu fel arall, o fewn yr amser sydd ar gael.